



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

LLYWODRAETH CYMRU

**Cynllun Gweithredu
Cenedlaethol ar gyfer
y Gweithlu:
Mynd i'r Afael â Heriau
Gweithlu GIG Cymru**

IONAWR 2023

llyw.cymru

Cynnwys

Rhagair gan y Gweinidog	3
Cyflwyniad: Pam Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu?	5
Llywodraethiant ac atebolrwydd	9
Ein gweithlu presennol	11
Ein gweithlu yn y dyfodol.....	13
Llenwi Bylchau yn y Gweithlu	17
Cadw ein Gweithlu: Ymgysylltu, Cefnogi a Datblygu ..	24
Cynllunio ar gyfer y dyfodol	33

Rhagair gan y Gweinidog

Mae'n bum mlynedd ers inni gyhoeddi 'Cymru Iachach: ein cynllun iechyd a gofal cymdeithasol', gan roi blaenoriaeth i'r angen craidd i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu ein gweithlu iechyd a gofal. Cafodd y Strategaeth ategol, [Cymru Iachach: Ein Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#), a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC), mewn partneriaeth â Gofal Cymdeithasol Cymru, ei chyhoeddi yn 2020. Amlinellodd weledigaeth 10 mlynedd i'n galluogi i wireddu ein huchelgais i gyflawni ein nod ar gyfer 'Gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol brwd a chynaliadwy'.

Mae'r weledigaeth strategol hon wedi bod yn allweddol i sicrhau ein bod yn cynnal ein trywydd hirdymor tuag at weithlu cynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Mae seiliau allweddol wedi'u sefydlu, gan fuddsoddi'n sylweddol yn addysg a hyfforddiant gweithlu Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) Cymru. Rhaid inni nawr osod y sylfaen ar gyfer ein cynaliadwyedd yn y dyfodol.

Mae ein gweithlu ar ei lefel uchaf erioed, ac rydym wedi gweld enghreifftiau rhagorol o weithio'n arloesol. Mae modelau darparu gwasanaethau a digidoleiddio cyflym yn cefnogi'r ffordd yr ydym yn gwybod y mae rhaid inni weithio.

Serch hynny, mae GIG Cymru yn wynebu heriau o ran y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol, heriau sydd i'w gweld yn fyd-eang. Ym mis Medi 2022, cyhoeddodd Sefydliad Iechyd y Byd ei adroddiad [Y gweithlu iechyd a gofal yn Ewrop: amser i weithredu](#). Mae'n amlygu'r argyfyngau lluosog sy'n wynebu gweithluoedd systemau iechyd a gofal cymdeithasol ledled Ewrop, ac yn nodi prinder cronig o ran staff. Gwaethygydd pethau gan bandemig COVID-19 a'r sefyllfa economaidd, a chan drafferthion recriwtio a chadw staff oherwydd straen, blinder, gorweithio, amodau gwaith anneniadol a chyfleoedd datblygu proffesiynol gwael.

Mae'r materion hyn o ran y gweithlu yn codi ym mhob trafodaeth rwy'n ei chael â staff ac arweinwyr GIG Cymru ac maent wedi bod yn rhan ganolog ohonynt yn y misoedd diwethaf. Mae'r neges yn glir – rhaid inni gyflymu'r camau yr ydym yn eu cymryd, gyda chymorth arweinyddiaeth gref, gyfunol a thosturiol er mwyn gwella'r sefyllfa o ran cadw a recriwtio staff a darparu'r amgylchedd a'r amodau gwaith sydd eu hangen ar ein gweithlu i allu gofalu'n effeithiol am bobl Cymru.

Mae'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol hwn ar gyfer y Gweithlu yn amlinellu cyfres o gamau ymarferol a fydd yn helpu i gyflymu'r weledigaeth 10 mlynedd gan gydnabod yn llawn y gwaith sydd ar y gweill fel rhan o Strategaeth y Gweithlu.

Bydd Bwrdd Gweithredu Strategol ar gyfer y Gweithlu, wedi'i gadeirio gan Judith Paget, Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru a Phrif Weithredwr GIG Cymru, yn goruchwyllo'r Cynllun. Bydd y Bwrdd yn rheoli rhyngddibyniaethau a chystadleuaeth am adnoddau sy'n dod i'r amlwg ar draws y system ehangach. Bydd yn ein helpu i wneud penderfyniadau anodd ynglŷn â ble, fel system, yr ydym yn canolbwyntio ein hadnoddau cyfyngedig. Bydd y Bwrdd yn dod

â'r holl bartneriaid allweddol ynghyd gan gydweithredu ac ymgysylltu i rannu gwybodaeth ac arbenigedd a sicrhau ymrwymiad i gyflawni.

Rwy'n llwyr gydnabod nad oes yna atebion cyflym. Serch hynny, byddwn yn ystyried pob dull arloesol i newid nid yn unig ein ffyrdd o weithio ond hefyd ein ffyrdd o feddwl i greu gweithlu GIG cynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Rhaid inni ymateb yn gyflym ac yn bendant i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu gweithlu GIG Cymru.

Bydd y Bwrdd Gweithredu Strategol ar gyfer y Gweithlu yn atebol i mi fel y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Rwy'n edrych ymlaen at gael diweddariadau rheolaidd ac adroddiadau cynnydd ynglŷn â chyflawni'r camau a nodir yn y Cynllun hwn, camau rwy'n siŵr y byddem ni i gyd yn cydnabod eu bod o'r pwys mwyaf.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'r rhai sydd wedi helpu i ddatblygu'r Cynllun hwn. Mae eich cyfraniad wedi bod yn amhrisiadwy wrth lunio'r fersiwn derfynol hon a byddwn yn eich annog i ddal i weithio gyda ni fel y gallwn barhau i gydweithio a chyflawni ar gyfer ein gweithlu GIG.



Eluned Morgan, AS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Cyflwyniad: Pam Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu?

Datblygwyd y Cynllun hwn mewn ymateb i'r galw ychwanegol sylweddol ar ein gweithlu oherwydd y newid pwyslais a'r ailflaenoriaethu angenrheidiol i gefnogi ein dull system gyfan a'n cynlluniau adfer uchelgeisiol. Gwnaethom ymrwmo i'r Cynllun hwn fel rhan o'n [Rhaglen i drawsnewid a moderneiddio gofal a gynlluniwyd a lleihau rhestrau aros yng Nghymru](#), a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2022.

Mae'r GIG yng Nghymru wedi bod yn wynebu galw uchel, digynsail am gyfnod estynedig o amser wrth inni addasu i'r pandemig a chymryd camau i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o ofal a gynlluniwyd. Mae hyn wedi ychwanegu at heriau hysbys o ran y gweithlu nad ydynt yn unigryw i Gymru – mae [Sefydliad Iechyd y Byd](#) wedi datgan bod yna argyfwng byd-eang yn y gweithlu gofal iechyd o ran addysg, recriwtio, rhoi staff ar waith a pherfformiad. Mae'n amcangyfrif y bydd yna ddiffyg o 10 miliwn o weithwyr iechyd erbyn 2030.

Gwnaethom ymrwmo i fynd i'r afael â'r heriau hyn yn *Cymru Iachach*, a gyhoeddwyd yn 2018. Rydym wedi parhau i fod yn gwbl eglur bod '*Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol Brwd a Chynaliadwy*' wrth wraidd unrhyw ddealltwriaeth gyffredin o'r newid system yr oedd arnom ei angen yng Nghymru ac mae'n un o nodweddion y Nod Pedwarplyg.

Cymru Iachach: Ein Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

I ysgogi trawsnewid yn y gweithlu, comisiynodd Llywodraeth Cymru AaGIC mewn partneriaeth â Gofal Cymdeithasol Cymru i ddatblygu [Cymru Iachach: Ein Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#), a gyhoeddwyd yn 2020. Mae'n gosod trywydd a gweledigaeth strategol 10 mlynedd ar gyfer trawsnewid y gweithlu.

Fel Awdurdod Iechyd Arbennig sy'n eistedd ochr yn ochr â Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd, cafodd AaGIC ei sefydlu yn 2018. Ei ddiben yw trawsnewid y gweithlu, sicrhau newid yng ngweithlu'r GIG, a gweithio mewn partneriaeth gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ar y gweithlu iechyd a gofal ehangach. Mae camau a nodwyd fel blaenoriaethau ar gyfer cam cyntaf Strategaeth y Gweithlu (2018-2023) wedi ysgogi ystod o gynlluniau wedi'u targedu ar gyfer y gweithlu, sydd wrthi'n cael eu datblygu, fel y nodir isod.

Mae'r camau gweithredu ar gyfer ail gam y Strategaeth wrthi'n cael eu datblygu drwy ymgynghori'n eang â rhanddeiliaid a phartneriaid, ac adolygu'r dystiolaeth wedi'r pandemig. Bydd y weledigaeth strategol hon yn parhau i fod yn hanfodol i sicrhau ein bod yn cynnal ein trywydd hirdymor tuag at weithlu cynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Byddwn hefyd yn mynd i'r afael â blaenoriaethau heriol uniongyrchol i gefnogi ein cynlluniau adfer uchelgeisiol.

Bydd yr ail gam hwn o Strategaeth y Gweithlu yn ymateb i'n blaenoriaethau clinigol allweddol ar gyfer Cymru, gan gynnwys cefnogi ein Cynllun Gweithredu ar gyfer

Canser, gofal brys a gofal mewn argyfwng, mynediad at ofal sylfaenol ac iechyd meddwl a lles gan gynnwys Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed.

Byddwn hefyd yn parhau i ddatblygu a mireinio ein dull mwy hirdymor o gynllunio'r gweithlu yng nghyd-destun Strategaeth y Gweithlu, gan gydnabod y cysylltiadau agos rhwng Cymru, rhannau eraill o'r DU a hyd yn oed yn fyd-eang. Er enghraifft, mae perthynas agos iawn rhwng datblygiad ac argaeledd gweithwyr iechyd a gofal sydd wedi'u hyfforddi'n briodol rhwng Cymru a Lloegr. Mater i Lywodraeth y DU yw'r ddeddfwriaeth a'r polisi sy'n ymwneud â rheoleiddio proffesiynol, ac mae ein gallu i recriwtio o dramor yn ddibynnol ar y polisiâu fisa a mewnfudo a benderfynir ar lefel y DU.

Yng Nghymru, cyhoeddwyd ein strategaeth gweithlu yn 2020, gan bennu trywydd 10 mlynedd a cheir themâu cyffredin gyda'r strategaethau sydd wedi eu cyhoeddi ers hynny mewn rhannau eraill o'r DU. Rydym yn disgwyl i Lywodraeth y DU gyhoeddi ei fframwaith cynllunio gweithlu strategol a'i chynllun gweithlu hirdymor yn 2023 – y cyntaf ers 2003. Rydym felly'n edrych ymlaen at addasu'r cynlluniau mewn cydweithrediad ag AaGIC, datblygu blaenoriaethau system wrth inni weithio drwy ein blaenoriaethau adfer ac ymateb i'r cynllun gweithlu a fydd yn cael ei gyhoeddi yn Lloegr.

Amserlen cynlluniau gweithluoedd

Gwasanaeth/Proffesiwn	Y Sefyllfa Bresennol	Y Camau Nesaf
Cynllun y Gweithlu Iechyd Meddwl	Y cynllun wedi'i gwblhau a'i lansio (7 Tachwedd)	Wedi dechrau gweithredu'r cynllun – rhai camau'n amodol ar gyllid
Datrysiadau'r Gweithlu Gofal Mamolaeth a Newyddenedigol – Cam 1 tymor byr	Blaenoriaethau wedi'u nodi	Gweithredu erbyn diwedd 22/23 Cam 2 i ddechrau yn 23/24
Cynllun y Gweithlu Fferylliaeth	Cynllun wrthi'n cael ei ddrafftio	Cwblhau'r cynllun erbyn diwedd 22/23
Cynllun y Gweithlu Deintyddiaeth	Cam cychwynnol y gwaith	Drafftio'r cynllun erbyn diwedd 22/23
Cynllun y Gweithlu Nyrsio – Cam 1 tymor byr	Camau cychwynnol gwaith ar 5 maes blaenoriaeth	Drafftio Cynllun Cam 1 erbyn diwedd 22/23 Cam 2 i ddechrau yn 23/24
Datrysiadau'r Gweithlu Diagnostig – tymor byr	Proses wedi'i chytuno	Costio a blaenoriaethu cynllun erbyn diwedd 22/23, ei weithredu yn 23/24
Cynllun y Gweithlu Gofal Sylfaenol	Cwmpas yn cael ei gytuno	Cynllun i'w gwblhau yn ystod 23/24
Cynllun y Gweithlu Genomeg	Cwmpas yn cael ei gytuno	Cynllun i'w gwblhau yn ystod 23/24

Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu

Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn adeiladu ar y trywydd strategol yn [Cymru Iachach: Ein Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#), gan gydnabod yr angen am weithredu cyflym ar y cyd ar rai blaenoriaethau allweddol er mwyn ehangu a chyflymu cynnydd yn sgil y pwysau presennol.

Bydd y Cynllun Gweithredu hwn yn:

- cefnogi ymrwymiad Strategaeth y Gweithlu i ddarparu gweithlu cynhwysol, hyblyg, amlbroffesiwn a all weithio ar draws sectorau a ffiniau traddodiadol.
- atgyfnerthu ffocws canolog y Strategaeth ar les y gweithlu a'i huchelgais i feithrin diwylliannau tosturiol, cyfunol a chynhwysol fel sylfaen gynaliadwy ar gyfer strategaethau cadarn i ddenu, recriwtio a chadw pobl ddawnus i hyfforddi, gweithio a byw yng Nghymru.
- nodi ffyrdd o gyflymu nodau clir y Strategaeth o ran hwyluso defnydd effeithiol o'r gweithlu iechyd, gan ddefnyddio dulliau seiliedig ar werth i ddarparu rolau sy'n rhoi boddhad o safbwynt proffesiynol, timau amlddisgyblaeth sy'n canolbwyntio ar egwyddorion gofal iechyd darbodus a manteisio ar dechnoleg i ryddhau amser i ofalu.
- cydlynu camau gweithredu a rhyngddibyniaethau ar draws y gwahanol sefydliadau sy'n helpu i gyflawni ein huchelgeisiau ar gyfer y gweithlu.

Mae'r Cynllun hwn yn nodi nifer o gamau y mae angen inni eu gweithredu ar unwaith i fynd i'r afael â'r heriau mwyaf brys yn y GIG nawr. Mae'r rhain yn gysylltiedig â gwaith sydd eisoes ar y gweill ac felly mae'n bwysig nad edrychir ar y camau hyn ar eu pen eu hunain. Yn hytrach, maent yn gamau sydd naill ai'n galluogi neu'n cyflymu camau sydd wedi'u cynnwys yn Strategaeth y Gweithlu a chynlluniau eraill, neu maent yn gamau newydd sydd wedi'u nodi drwy sgyrsiau â rhanddeiliaid y mae rhaid eu blaenoriaethu i'w gweithredu nawr.

Yn ogystal, mae rhai camau gweithredu wedi'u cynnwys sydd hefyd yn Strategaeth y Gweithlu fel rhan o gamau eraill neu gamau annibynnol. Maent wedi'u nodi yn y Cynllun hwn yn sgil yr adborth a gawsom gan randdeiliaid a ddywedodd eu bod yn gamau y dylid eu blaenoriaethu i'w gweithredu yn y dyfodol agos iawn ac yn y tymor byr.

Nid yw'r Cynllun hwn yn naratif hollgynhwysol ond mae'n ein helpu i flaenoriaethu ac olrhain y blaenoriaethau allweddol drwy'r Bwrdd Gweithredu Strategol ar gyfer y Gweithlu. Dylid darllen y Cynllun ar y cyd â Strategaeth y Gweithlu a chynlluniau eraill a gyhoeddwyd sy'n cynnwys amcanion eraill ar gyfer y gweithlu. Bydd y Cynllun yn datblygu wrth i flaenoriaethau ddod i'r amlwg, megis camau ar unwaith i gefnogi'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Canser.

Yn yr un ffordd, bydd rhoi sylw i flaenoriaethau brys i gymryd camau ar y gweithlu gofal cymdeithasol yn hanfodol er mwyn cyflawni blaenoriaethau Gweinidogol allweddol, gan gynnwys cydweithio ag awdurdodau lleol i fynd i'r afael ag oedi wrth

drosoglwyddo gofal. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth gyda Gofal Cymdeithasol Cymru a phartneriaid cyflawni a rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu Cynllun Gweithredu cyfatebol ar gyfer blaenoriaethau'r gweithlu gofal cymdeithasol. Bydd y Cynllun hwnnw'n cael ei gyhoeddi yn yr haf.

Mae'r camau gweithredu yn y Cynllun hwn wedi'u fframio o amgylch tri phennawd allweddol a fydd yn taro tant â'r gweithlu, yn ogystal ag â'r cyhoedd sy'n dibynnu ar eu gwasanaethau –



Llenwi Bylchau yn y Gweithlu

Rhaid inni gydnabod yr heriau sy'n cael eu creu gan amodau tynn y farchnad lafur nid yn unig yn y DU ond ar draws y byd. Bydd parhau i recriwtio gweithwyr proffesiynol cofrestredig a gweithwyr gofal iechyd sydd wedi'u hyfforddi'n llawn yn heriol iawn yn sgil sawl blwyddyn o ganolbwyntio ar Covid-19 ac mewn marchnad gyflogaeth gystadleuol gyda phrinder sgiliau a gweithlu byd-eang ar gyfer iechyd.

Cadw ein Gweithlu: Ymgysylltu, Cefnogi a Datblygu

Wrth inni symud drwy aeaf heriol ac edrych tua'r tymor hwy, bydd yn parhau i fod yn hanfodol ein bod yn cefnogi iechyd a lles ein gweithlu presennol, yn canolbwyntio ar gadw ein gweithlu ac yn sicrhau ein bod yn datblygu'r sgiliau a'r gallu sydd eu hangen ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, nid recriwtio yn unig yw'r ffordd allan o'r sefyllfa – mae angen inni feddwl a gweithredu'n wahanol i roi ystod o ddulliau ar waith i sicrhau capasiti gweithlu ychwanegol.

Rydym yn gwybod y bydd amrywiaeth yn y gweithlu yn creu'r amgylchedd cynhwysol i alluogi pawb i ymuno, cael eu cefnogi a datblygu, ac felly ffynnu, llwyddo a chyfrannu.

Cynllunio ar gyfer y Dyfodol

Mae'n bwysig ein bod yn canolbwyntio ar ffyrdd o ddefnyddio ein gweithlu presennol a gweithlu'r dyfodol yn fwy effeithiol. Bydd hyn yn cynnwys defnydd gwell o weithio rhwng timau amlbroffesiwn, gan ailddylunio gwasanaethau, timau a rolau a rhoi rolau a modelau ymarfer datblygedig ar waith. Bydd hyn yn galluogi pobl i ddatblygu eu gyrfaedd a gweithio ar frig eu trwydded. Byddwn hefyd yn defnyddio technoleg a dulliau meddwl am brosesau i roi pobl ar waith yn fwy hyblyg, drwy amserlennu a threfnu gwaith yn effeithiol. Bydd hyn yn galluogi cyflogaeth hyblyg ar draws ffiniau proffesiynol a sefydliadol ac yn lleihau unrhyw oedi neu rwystrau yn ein systemau a'n prosesau cyflogaeth. Wrth ailgynllunio systemau, byddwn yn ystyried yn benodol y cyfle y mae datrysiadau digidol yn ei gynnig i ryddhau amser i ofalu. Bydd hyn yn cefnogi arbenigedd gwerthfawr y gweithlu ac yn galluogi pobl i weithio'n fwy effeithiol i wella gwasanaethau a lleihau llwythi gwaith. Bydd yr adran hon yn canolbwyntio ar gamau a fydd yn gwneud gwahaniaeth ar unwaith ac yn y tymor byr ac, ar yr un pryd, yn galluogi datrysiadau tymor hwy i gael eu rhoi ar waith.

Bydd angen i'r Cynllun Gweithredu fod yn gynllun ystwyth, gyda'r gallu i ailflaenoriaethu wrth ei roi ar waith a'i ddiweddarau'n rheolaidd. Mae profiad dros y blynyddoedd diwethaf wedi dangos y canlynol:

- gall amgylchiadau a blaenoriaethau newid yn gyflym wrth inni symud drwy heriau i'n gwasanaethau a ddaw yn sgil unrhyw donnau Cofid yn y dyfodol, fflw a feirysau anadlol eraill y gaeaf,
- bydd rhaglenni strategol allweddol (megis Gofal a Gynlluniwyd, Gofal Sylfaenol, Iechyd Meddwl, Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng, Canser) yn naturiol yn nodi ac yn mireinio'r gofynion o ran y gweithlu,
- bydd blaenoriaethau newydd yn dod i'r amlwg o'n Fframwaith Clinigol Cenedlaethol a rhaglenni a rhwydweithiau ledled Cymru ar gyfer cyflyrau sylweddol megis diabetes, iechyd menywod a chlefyd y galon,
- bydd blaenoriaethau gweithlu mwy penodol yn dod i'r amlwg o'r cynlluniau sefydliadol unigol.

Llywodraethiant ac atebolrwydd

Wrth i'r pwysau presennol ar ein GIG yng Nghymru newid mewn ymateb i amgylchiadau gwahanol, mae'n bwysig ein bod yn gallu meddwl yn hyblyg ac addasu blaenoriaethau. Bydd y Bwrdd Gweithredu Strategol ar gyfer y Gweithlu yn allweddol i alluogi'r dull hwnnw. Bydd yn hanfodol bod y bobl gywir yn cael eu cynnwys i wneud y cysylltiadau perthnasol ac angenrheidiol, nid yn unig â'r cynllunio tymor hwy sydd yn Strategaeth y Gweithlu, ond hefyd ein cynlluniau adfer, cynlluniau unigol sefydliadau'r GIG, a'n Rhaglenni Strategol a'n Byrddau Gweithredu sy'n aml yn creu blaenoriaethau ychwanegol ar gyfer y gweithlu.

Bydd y Bwrdd Gweithredu Strategol ar gyfer y Gweithlu yn adrodd i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gan ddarparu safbwynt cyfunol ystod o

bartneriaid allweddol gan gynnwys arweinwyr polisi a phroffesiynol yn Llywodraeth Cymru, a chynrychiolwyr cyflogwyr y GIG, sefydliadau staff a chynrychiolwyr proffesiynol.

Bydd AaGIC, fel y corff gweithlu strategol ar gyfer GIG Cymru, yn parhau i fod y sefydliad allweddol i sbarduno newid yn y maes hwn. Felly, mae angen darllen y Cynllun hwn ar y cyd â Chynllun Tymor Canolig Integredig AaGIC sy'n weithredol tan 2025. Fodd bynnag, mae angen cydnabod bod yna bolisiâu a strwythurau y bydd angen iddynt ddylanwadu ar ddatblygiad a strwythur gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol y dyfodol y tu hwnt i gylch gwaith AaGIC. Mae hyn yn cynnwys datblygu modelau a chynigion polisi priodol i ddiwallu anghenion gweithlu modern y dyfodol. Mae hefyd angen rhyngweithio ag Addysg Bellach ac Addysg Uwch a Chynllun Cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru.

Er mwyn creu a gweithredu gweithlu effeithiol, mae angen cynllun gweithlu sy'n seiliedig ar dystiolaeth, sydd wedi'i integreiddio â'n cynlluniau cyllid, sy'n canolbwyntio ar feysydd gweithgarwch sylweddol ac sy'n gyson â chynlluniau perfformiad sefydliadau unigol. Ni fydd y Bwrdd Gweithredu yn torri ar draws y mecanweithiau llywodraethiant ac atebolrwydd presennol sydd eisoes ar waith ar gyfer sefydliadau GIG Cymru. Yn hytrach, bydd yn sicrhau cysondeb ar gyfer camau gweithredu trawsbynciol ac atebolrwydd cyfunol, gan sicrhau ansawdd a phrydlondeb o ran cyflawni, a darparu'r gallu i werthuso effaith ein camau gweithredu ar wasanaethau. Bydd yn ein galluogi i gysoni'r elfennau cyffredin o'n cynlluniau pan mai 'Unwaith i Gymru' yw'r ffordd orau o gyflawni'r rhain. Bydd hefyd yn sicrhau cysondeb a dysgu ledled Cymru o ran gweithredu.

Bydd y Bwrdd Gweithredu Strategol ar gyfer y Gweithlu yn rheoli rhyngddibyniaethau ac yn llywio penderfyniadau ynglŷn â ble, fel system, yr ydym yn canolbwyntio ein hadnoddau cyfyngedig.

Cylch gwaith y Bwrdd Gweithredu Strategol ar gyfer y Gweithlu fydd: -

- Creu atebolrwydd cyfunol ar gyfer y rhyngddibyniaethau rhwng cynlluniau'r gweithlu o wahanol sectorau, cynlluniau sefydliadol y GIG a'n Cynlluniau Strategol.
- Galluogi dull ystwyth o gyflawni'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu i'n galluogi i ymgorffori heriau sy'n dod i'r amlwg a blaenoriaethau newydd i adlewyrchu natur ddeinamig adferiad.
- Rheoli gorgyffwrdd â champau gweithredu a nodir mewn cynlluniau eraill i osgoi dyblygu, gan nodi synergeddau a meysydd ar gyfer cydweithio, nid yn unig ar draws sefydliadau'r GIG ond gyda'r holl bartneriaid cyflawni.


Bydd aelodau'r Bwrdd yn cynnwys o leiaf sefydliadau GIG Cymru (gan gynnwys AaGIC a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru), Llywodraeth Cymru, arweinwyr proffesiynol, Undebau Llafur, y Trydydd Sector ac eraill i sicrhau cynrychiolaeth amlbroffesiwn.

Ein gweithlu presennol

Maint y gweithlu presennol

Mae'r gweithlu ar ei lefel uchaf erioed, gyda thros 105,000 o aelodau o staff yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan sefydliadau GIG Cymru. Ers 2015-16, mae cyfanswm y bil cyflog wedi cynyddu 53% ac mae bellach yn £5,028 biliwn (2021-22) sef 58% o gostau gweithredu net GIG Cymru.

Ar 30 Medi 2021, roedd ein gweithlu'n cynnwys -



(a) Yn cynnwys staff ambiwlans, cynorthwyr gofal iechyd, gweithwyr cymorth a staff anfeddygol. Yn dilyn newidiadau i'r codau galwedigaeth, mae tua 70% o'r cynorthwyr gofal iechyd wedi'u cynnwys gyda staff nyrso, bydwreigiaeth ac ymwelwyr iechyd o 2009, yn 'arall' yn flaenorol. Toriad yn y siart i ddangos y newid.

Ffynhonnell y data: Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) . Nifer y staff – cyfwerth ag amser llawn

Yn y blynyddoedd diwethaf rydym hefyd wedi dibynnu ar oriau gwaith ychwanegol a ddarperir gan ffynonellau amrywiol, gan gynnwys oriau ychwanegol a ddarperir gan ein gweithlu presennol a thrwy ein Banciau Staff yn ogystal â rhoi staff asiantaeth ar waith yn gyflym ar draws y GIG, yn enwedig yn ystod y pandemig.

Buddsoddi mewn hyfforddi gweithlu newydd

Rydym wedi blaenoriaethu buddsoddi yn addysg a hyfforddiant gweithlu'r dyfodol yn ystod yr wyth mlynedd diwethaf. O ganlyniad, rydym yn gweld y nifer uchaf erioed o bobl yn ymuno â rhaglenni addysg. 2023/24 yw'r nawfed flwyddyn yn olynol pan fydd cyllid i gefnogi addysg a hyfforddiant gweithwyr iechyd proffesiynol yng Nghymru yn cynyddu. Bydd £281.98m yn cael ei fuddsoddi yn 2023/24. Mae hyn yn 8% o gynnydd ers 2022/23 ac yn £1.7 miliwn (0.8% o gynnydd) yn ychwanegol ar gyfer

rhaglenni addysg a hyfforddiant ar gyfer yr holl weithwyr gofal iechyd proffesiynol yng Nghymru. Mae yna £7.14 miliwn (11.6% o gynnydd) yn ychwanegol ar gyfer lleoedd hyfforddi meddygol, £1.68 miliwn (4.8% o gynnydd) yn ychwanegol i gefnogi niferoedd hyfforddi ymarfer meddygol craidd a chynnydd net o £3.41 miliwn (28.1% o gynnydd) ar gyfer hyfforddiant fferylliaeth ledled Cymru. Rydym yn cydnabod nad yw rhai lleoedd hyfforddi wedi cynyddu cymaint ag eraill a bydd angen inni ystyried hyn at y dyfodol.


Er enghraifft, mae hyn yn golygu am y chwe blynedd diwethaf ers 2017 fod:

- Lleoedd hyfforddi nyrsys wedi cynyddu 54.3% (o 1750 yn 2017 i 2701 yn 2023)
- Lleoedd hyfforddi bydwragedd wedi cynyddu 41.8% (o 134 yn 2017 i 190 yn 2023)
- Lleoedd hyfforddi ffisiotherapyddion wedi cynyddu 34.3% (o 134 yn 2017 i 180 yn 2023)
- Lleoedd hyfforddi Therapyddion Galwedigaethol wedi cynyddu 62.8% (o 121 mewn 2017 i 197 yn 2023)
- Lleoedd hyfforddi parafeddygon wedi cynyddu 39.5% (o 86 yn 2017 i 120 yn 2023)

O ganlyniad i'r buddsoddi hirdymor hwn, rydym nawr yn gweld cynnydd yn nifer y bobl sy'n graddio o'r cyrsiau hyn yn barod i ymgymryd â rolau yn system iechyd a gofal cymdeithasol Cymru.

Fodd bynnag, mae yna lleoedd hyfforddi sydd heb gynyddu ar yr un raddfa, ac mae yna rai proffesiynau nad ydym yn eu comisiynu nac yn eu haddysgu o gwbl yng Nghymru. O ystyried faint o amser mae comisiynu addysg a hyfforddiant yn ei gymryd, bydd mynd i'r afael â'r anghysondebau hyn yn gam gweithredu mwy hirdymor na'r Cynllun hwn. Rydym yn cydnabod nad yw rhai lleoedd hyfforddi wedi cael eu cynyddu cymaint ag eraill a bydd angen inni ystyried hyn at y dyfodol.

Mae'n bwysig ystyried hefyd broffil oedran ein gweithlu. Mae'r tabl isod yn dangos proffil oedran ein gweithlu ar 30 Mawrth 2021. Rydym yn wynebu heriau gweithlu sy'n heneiddio, ond mae'r tabl isod hefyd yn dangos dosbarthiad oedran mwy cyfartal ar draws y proffil oedran yn nata Mawrth 2021 nag yn nata 2015. Mae mwy o'n gweithlu yn dal i fod yn y grwpiau oedran hŷn, ond nid cymaint ag yn 2015.



Proffil oed yn ôl blwyddyn (2021)

Ffynhonnell y data: ESR DW adroddir gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) [Tueddiadau yng Ngweithlu GIG Cymru](#)

Ein gweithlu yn y dyfodol

Ar gyfer y dyfodol agos iawn a'r tymor byr y mae'r Cynllun hwn, ond mae'n bwysig cydnabod y bydd ein gweithlu yn edrych yn wahanol iawn yn y tymor hwy, ac mae llawer o'r camau gweithredu yn y Cynllun hwn yn darparu sylfeini cadarn ar gyfer gwaith yn y dyfodol. Wrth inni fwrw ymlaen â gwireddu uchelgeisiau *Cymru Iachach*, rydym yn gweld cymysgedd sgiliau a demograffeg y gweithlu'n newid. Wrth edrych tua'r dyfodol byddwn yn gweld lefelau uwch o ofal yn cael ei ddarparu yn uniongyrchol yn y gymuned. Bydd hefyd yn fwy personol ac wedi'i alluogi'n fwy gan dechnoleg. Bydd mwy o ffocws ar iechyd y boblogaeth, atal a lleihau anghydraddoldebau iechyd. Mae diagnosis cynharach ochr yn ochr â modelau gofal newydd ac integredig, a defnydd gwell o dechnoleg, yn cynnig y potensial i wella iechyd Cymru a'r gofal a roddir i'n poblogaeth yn sylweddol.

Mae gan Gymru boblogaeth sy'n heneiddio, ac yn y blynyddoedd nesaf, bydd nifer uwch o gleifion yn mynd at y system iechyd gydag anghenion iechyd mwy cymhleth ac eiddilwch cynyddol. Rhaid inni ddatblygu dulliau cynllunio sy'n ystyried y gweithlu cyfan i ddiwallu anghenion poblogaeth hŷn, gan sicrhau bod yr anghenion hyn yn rhan annatod o addysg broffesiynol drwyddi draw ac yn cael eu cefnogi drwy fodolau newydd o weithio ambroffesiwn. Mae hefyd angen mynd i'r afael â'r anghenion hyn yn ein trywydd strategol tymor hwy ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae datblygiadau gwyddonol yn darparu, yn gyflym iawn, ffyrdd newydd a mwy effeithiol o ddarparu triniaeth. Er enghraifft, mae ein dealltwriaeth gynyddol o genomeg yn cynnig cyfleoedd ar gyfer triniaethau newydd mwy personol ac wedi'u targedu'n fwy ar gyfer rhai o'n clefydau mwyaf cyffredin. Rydym wedi defnyddio datblygiadau meddygol a thechnolegol newydd i wella diagnosis cynnar yn y rhaglen

sgrinio am ganser y coluddyn drwyddi draw, sydd bellach yn galluogi pobl i wneud prawf yn eu cartref eu hunain. Mae'r rhaglen imiwneiddio rhag y Feirws Papiloma Dynol (HPV) wedi lleihau'r risg o ganser ceg y groth yn effeithiol ac wedi ein galluogi i dargedu ein rhaglenni sgrinio yn well. Gallwn ddarparu ymyriadau therapi ac adsefydlu o bell, gan leihau'r angen i bobl deithio mewn poen i apwyntiadau. Mae pob un o'r newidiadau hyn nid yn unig wedi darparu gofal gwell i gleifion ond hefyd wedi ein galluogi i ddefnyddio ein gweithlu medrus mewn ffyrdd gwahanol.

Yn yr un modd, mae datblygiadau digidol eisoes yn cynnig cyfle go iawn inni roi ein gweithlu ar waith yn fwy effeithiol. Er enghraifft, yn ein Rhaglen Lywodraethu gwnaethom ymrwymo i gyflwyno e-bresgripsiynu ac mae'r arwyddion cynnar mewn treialon cyfredol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe wedi dangos ei fod yn rhyddhau 15-20% o amser nyrsys yn gwneud rowndiau. Byddwn yn parhau i ddatblygu a gweithredu technoleg ddigidol a thelefeddygaeth fel seiliau i'n hymrwymiaid i wella ansawdd, cynyddu effeithlonrwydd, lleihau teithio corfforol, a galluogi ffyrdd gwahanol o weithio.

Yn ogystal, mae disgwyliadau pobl wedi newid, a hynny'n briodol, o ran sut y gallant gael at wasanaethau a derbyn gwasanaethau. Rhaid inni barhau i adeiladu ar yr hyn sy'n gweithio a defnyddio'r dulliau newydd hyn i wireddu'r disgwyliadau hynny. Rydym wedi buddsoddi £20 miliwn yn ap a gwefan GIG Cymru i roi mynediad 'ar alw' i bobl at eu cofnodion iechyd.

Mae defnyddio llwyfannau digidol i gynorthwyo hunanreolaeth gyda chymorth wedi cyflymu'r broses o gyflawni llwybrau dilynol y cytunir arnynt, gan leihau'r angen i gleifion fynd i leoliad clinigol a lleihau baich cynnydd anghynaliadwy o ran presenoldeb cleifion allanol. Mae defnyddio cofnodion iechyd personol digidol yn galluogi cleifion i rannu gwybodaeth â'r tîm clinigol i helpu i reoli eu cyflwr, cael at ystod eang o wybodaeth gan gynnwys canlyniadau profion ac, os oes angen, cyngor ar eu symptomau a'u cyflwr pryd bynnag y bo angen, yn hytrach nag aros am apwyntiad arferol. Mae'r newid mewn ffocws o'r apwyntiad claf allanol traddodiadol i'r defnydd o llwyfannau digidol eisoes wedi cael ei gyflwyno'n llwyddiannus mewn rhai Byrddau/Ymddiriedolaethau Iechyd yng Nghymru, gan rymuso cleifion i reoli eu hiechyd heb angen mynd i leoliad ysbyty fel Canser y Prostad a Diabetes, ac mae yna botensial i ehangu ymhellach.

Byddwn yn parhau i greu rhaglen gweithlu sydd â sgiliau digidol a defnyddio technoleg ddigidol fel rhan o ailgynllunio gwasanaethau, cynllunio'r gweithlu, dylunio timau a rolau a llifoedd gwaith er mwyn ffocysu mewnbyn clinigol gwerthfawr. Rydym wedi ymrwymo i gefnogi ein gweithlu i sicrhau bod gweithwyr yn hyderus i ddefnyddio'r dechnoleg newydd hon wrth iddi ddod ar gael a'n bod yn 'meddwl yn ddigidol' pryd bynnag y bydd hyn yn cynnig cyfleoedd inni leihau'r baich ar y gweithlu a gwella'n gwasanaeth i Gymru. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn gwireddu ein hymrwymiad i wella profiad staff a'u cefnogi i ddarparu gofal gwell.

Bydd gwireddu'r datblygiadau cyflym ym maes meddygaeth, gwyddoniaeth a thechnoleg yn golygu bod angen inni newid ein ffordd o feddwl am ddatblygu ein gweithlu yn y dyfodol. Ni allwn rag-weld yn union y cyfleoedd a fydd yn cael eu cynnig inni yn ystod gyrfaedd y recriwtiaid newydd hynny sy'n ymuno â'r system


iechyd a gofal ar hyn o bryd. Bydd angen inni hefyd ystyried y ffyrdd y bydd ein gweithlu yn y dyfodol yn dymuno gweithio; rydym eisoes yn gweld canran sylweddol o raddedigion gofal iechyd sydd am weithio llai na llawn amser. Mae hyn yn golygu y bydd angen inni addasu ein rhaglenni hyfforddiant ac addysg, ein rolau yn y gweithlu a gwaith ambroffesiwn mewn ffordd a fydd yn diogelu ein gweithlu ar gyfer y dyfodol. Bydd angen inni ddatblygu a gwella sgiliau o ran addasu a hyblygrwydd a hyder digidol.

Mae hefyd yn golygu y bydd angen inni ganolbwyntio ar ddysgu a datblygu sgiliau drwy gydol gyrfa, er mwyn sicrhau bod ein gweithlu'n parhau i fod mewn sefyllfa dda i wireddu manteision technoleg newydd wrth iddi ddod i'r amlwg. Mae angen inni hefyd ystyried sut mae sefydliadau'n addasu ac yn newid er mwyn gallu sicrhau bod ein gweithlu yn gallu gweithio yn y ffordd fwyaf effeithiol gyda'r dechnoleg sydd ar gael a chyda hyblygrwydd i weithio o bell. Er enghraifft, mae Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru wedi gweithredu trefniadau gweithio o bell ar gyfer y gwasanaeth 111 drwy gynyddu capasiti digidol. Mae'r Ymddiriedolaeth bellach yn gallu cyflogi pobl o ardal lawer ehangach ledled Cymru, gan felly ehangu cyfleoedd gwaith, yn lle gorfod cyflogi staff sy'n gallu gweithio mewn tair canolfan benodedig.

Meysydd Gweithredu Allweddol i Gyflawni'r Gweithlu



Llenwi Bylchau yn y Gweithlu



Denu a Recriwtio

Mae Cymru lachach a Strategaeth y Gweithlu yn amlinellu ein dyhead bod y GIG yng Nghymru yn gyflogwr rhagorol o ran lles cyflogeion, a bod rolau ym maes iechyd a gofal yn rhoi cyfleoedd i bobl wneud gwaith sy'n rhoi boddhad ac sy'n werthfawr yn gymdeithasol, gyda thelerau ac amodau gwasanaeth diogel ac atyniadol. Rydym am ddenu ystod amrywiol o unigolion i yrfaeoddedd ym maes iechyd a gofal a chefnogi uchelgeisiau [Cymru Gryfach, Decach, Gwyrddach: Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau](#) a galluogi'r GIG i fod yn gyflogwr allweddol yn yr economi sylfaenol ledled Cymru.

Oherwydd y pwysau dwys ar y system, mae gwirioneddau darparu gofal yn y GIG yn fwy amlwg nag erioed o'r blaen. Mae heriau ychwanegol yr argyfwng costau byw a'r farchnad lafur gystadleuol o fewn y DU ac yn rhyngwladol wedi arwain at gynnig cyflogaeth llai atyniadol. Mae hyn wedi effeithio ar ein gallu i ddenu pobl i weithio yn y GIG yng Nghymru.

Yn sgil heriau prinder sgiliau byd-eang, a marchnad gyflogaeth gystadleuol, mae angen inni ddod o hyd i ffyrdd newydd, arloesol o ddenu pobl i faes iechyd a gofal cymdeithasol gan ei gwneud yn hawdd dod o hyd i rolau sydd ar gael ac ymgeisio amdanynt.

Y nod i fynd i'r afael â hyn yn [Cymru lachach: Ein Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#) yw sicrhau "*Erbyn 2030, bydd iechyd a gofal cymdeithasol wedi'u sefydlu'n dda fel brand cryf a hawdd ei adnabod a'r sector o ddewis i'n gweithlu yn y dyfodol*". O ganlyniad, mae AaGIC wedi datblygu gwefan arloesol a rhyngweithiol '[Tregyrfa](#)' sy'n darparu offeryn rhyngweithiol ar-lein i alluogi pobl i archwilio'r dewis o yrfaeoddedd sydd ar gael ym maes iechyd a gofal, a darganfod mwy amdanynt. Ochr yn ochr â 'Thregyrfa' mae AaGIC wedi sefydlu Rhwydwaith

Gyrfaoedd Iechyd a Gofal Cymdeithasol i gryfhau cysylltiadau rhwng dulliau gyrfaoedd a'r rhai sy'n ceisio gwaith ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Yn ogystal, mae gwaith ar y gweill i adolygu a datblygu cynlluniau i fynd i'r afael â phrinder mewn grwpiau proffesiynol a galwedigaethol a meysydd anodd recriwtio iddynt. Mae gwaith hefyd wedi cael ei dargedu i sicrhau y cyrhaeddir grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Mae'r gwaith hwn wedi amlygu sut y bydd nodweddion daearyddol ac economaidd gwahanol rannau o Gymru yn cynnig cyfleoedd i ddenu gweithlu o gymunedau lleol. Bydd AaGIC yn parhau i weithio mewn partneriaeth i ddatblygu Fframweithiau Datblygu Gyrfa ar gyfer nifer o sectorau/proffesiynau a'r defnydd o fodolau dysgu yn y gwaith. Mae'r sylfeini hyn wedi galluogi rhai byrddau iechyd i weithio gyda chymunedau lleol na fyddai fel arfer yn ystyried gyrfa ym maes iechyd a gofal er mwyn amlygu cyfleoedd a chael gwared ar unrhyw rwystrau i gyflogaeth a allai fodoli.

Ehangu Mynediad

Mae AaGIC yn datblygu ardal prentisiaethau yn 'Nhregyrfa' ac mae mewn cysylltiad â'r Colegau a'r Darparwyr Hyfforddiant sy'n darparu prentisiaethau. Mae gan bob un o sefydliadau GIG Cymru hefyd gysylltiadau cryf â'u darparwyr prentisiaethau. Mae sefydliadau yn awyddus i ddefnyddio mwy o Fframweithiau Prentisiaethau Gofal Iechyd ar gyfer recriwtiaid newydd ac i uwchsgilio'r gweithlu presennol. Mae AaGIC yn ymgymryd â gwaith yn y maes hwn. Ar hyn o bryd, mae fframweithiau ar gael mewn nifer o feysydd gan gynnwys fferylliaeth, deintyddiaeth a chymorth mamolaeth a phediatreg. Erbyn mis Ebrill 2023, bydd AaGIC wedi adolygu'r Fframweithiau Prentisiaethau Gofal Iechyd, gan olygu y bydd gan GIG Cymru gyfres o Fframweithiau sy'n addas i'r diben, ac y bydd y Fframweithiau yn cynnwys y cymwysterau diweddaraf.

Mae rhai byrddau iechyd wedi mabwysiadu modelau i recriwtio o'u cymunedau lleol a chefnogi recriwtiaid i gwblhau prentisiaethau a mathau eraill o ddysgu yn y gwaith er mwyn datblygu eu sgiliau, eu cymwysterau a'u gyrfaedd o fewn y sefydliad. Mae gennym gyfle i ddysgu ac ehangu ymhellach y modelau recriwtio o gymunedau lleol, gan ddilyn dull 'tyfu'ch staff eich hun', i ddenu ymgeiswyr o'r gymuned ehangach drwy ddysgu a phrentisiaethau yn y gwaith i ennill cyflog, dysgu a datblygu eu gyrfaedd o fewn y system iechyd a gofal. Byddwn yn gweithio gydag AaGIC i gyhoeddi canllawiau i ehangu a lledaenu modelau recriwtio 'tyfu'ch staff eich hun' o gymunedau lleol.

Gweithwyr wrth gefn

Mae AaGIC yn datblygu cynigion i sefydlu grŵp o weithwyr wrth gefn yng Nghymru a allai ddod â sgiliau a chapasiti ychwanegol i GIG Cymru i gefnogi ein gweithlu rheolaidd pan fo pwysau eithafol arno, neu pan fo angen ymdrech ar y cyd i gyflawni blaenoriaeth benodol. Er enghraifft, pe baem yn wynebu her debyg i'n tasg genedlaethol i gyflawni'r rhaglen frechu COVID gyntaf. Erbyn mis Ebrill 2023, bydd AaGIC yn datblygu achos busnes wedi'i gostio ar gyfer model gweithlu wrth gefn i Gymru.

Recriwtio Rhyngwladol

Bydd recriwtio rhyngwladol yn parhau i fod yn allweddol i ddarparu capasiti i'n gweithlu iechyd yng Nghymru. Yn 2022, gwnaethom dreialu dull 'Unwaith i Gymru' moesegol o recriwtio nyrsys er mwyn diwallu anghenion penodol, gan recriwtio tua 400 o nyrsys o dramor. Gwnaethom ofalu eu bod yn cael cymorth priodol i ymgartrefu i sicrhau eu bod yn cael y dechrau gorau yn eu rolau newydd a bod ganddynt ymdeimlad o berthyn yn y GIG ac yng Nghymru. Mae angen inni adeiladu ar y profiad hwn o ddilyn dull 'Unwaith i Gymru' moesegol o recriwtio rhyngwladol. Bydd yr hyn a ddysgir o'r gwerthusiad o gam 1 yn ein helpu i baratoi at groesawu nyrsys newydd ym mis Medi 2023 ac at ymarferion recriwtio yn y dyfodol i lenwi bylchau penodol eraill yn ein gweithlu.

Denu a Recriwtio – Beth fydd y Cynllun hwn yn ei gyflawni

Erbyn mis Ebrill 2023

- Bydd Llywodraeth Cymru wedi llunio amserlen ar gyfer ymgynghori ar Gynllun Bwrsariaeth GIG Cymru ar ei newydd wedd.
- Bydd AaGIC wedi ailwampio, gwella a lansio ymgyrch ddenu a recriwtio ar gyfer GIG Cymru, gyda chymorth Hyfforddi, Gweithio, Byw, i gefnogi ymgyrchoedd recriwtio cenedlaethol a thramor ar gyfer staff parhaol, recriwtio gwell i'r Banciau a'r rhai sy'n dychwelyd.

Erbyn mis Gorffennaf 2023

- Bydd AaGIC yn ymgymryd ag ymgyrch recriwtio ehangach i fynd i'r afael â phrinder mewn meysydd proffesiynol.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chyflogwyr y GIG a sefydliadau eraill GIG Cymru i ddatblygu cynlluniau cymell i dargedu prinder mewn grwpiau a/neu feysydd allweddol. Bydd y cynlluniau hyn yn helpu i gadw pobl yng Nghymru a byddant yn cynnwys mecanweithiau monitro er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu rhoi ar waith yn gyson ac yn deg.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn comisiynu gwaith i ddatblygu opsiynau cyflogaeth a chontractau hyblyg newydd sy'n gweddu'n well i'r rhai sy'n dymuno gweithio mewn sectorau sylfaenol a chymunedol i wella gwasanaethau i gymunedau sydd â'r angen mwyaf am ofal iechyd. Bydd hyn yn cynnwys hwyluso opsiynau cyflogaeth hyblyg ar gyfer gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd a gyflogir gan fwrdd iechyd neu awdurdod lleol.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn comisiynu ymarfer i nodi gofynion sylfaenol o ran dyddiadau. Bydd hyn yn hwyluso ymarfer i nodi pa rolau proffesiynol sydd â'r brys mwyaf o ran prinder yn y gweithlu.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru i ddatblygu cynigion i fynd i'r afael â heriau recriwtio rhyngwladol, yn seiliedig ar werthusiad o ddulliau recriwtio moesegol, gan gynnwys cymorth cyfannol i recriwtiaid rhyngwladol a'u teuluoedd gan gynnwys tai ac addysg.

Erbyn mis Medi 2023

- Bydd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn adolygu ac yn moderneiddio prosesau recriwtio er mwyn ehangu mynediad.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi AaGIC a sefydliadau GIG Cymru i wneud cais i fod yn ganolfan brofi OSCE genedlaethol er mwyn hwyluso recriwtio rhyngwladol.

Erbyn mis Ionawr 2024

- Bydd AaGIC yn gweithio i gynyddu dysgu a phrentisiaethau yn y gwaith er mwyn ehangu mynediad mewn meysydd lle mae yna brinder a bydd yn ystyried cynllun prentisiaethau nyrsio cenedlaethol.

Gwella profiad defnyddwyr gwasanaethau drwy wirfoddolwyr

Mae gan y GIG rwydwaith gweithredol o gydlynwyr gwirfoddoli a gwirfoddolwyr sy'n rhoi o'u hamser i wella profiad cleifion a darparu gwasanaethau ychwanegol yn ein hysbytai a'n cymunedau. Bydd gwirfoddolwyr yn cael eu rhoi ar waith yn unol â chompart Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru y cytunwyd arno mewn partneriaeth â'r Undebau Llafur a'r Cymdeithasau Proffesiynol sy'n rheoli'r defnydd teg o wirfoddolwyr.

Erbyn mis Gorffennaf 2023

- Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag AaGIC i gynnal ymgyrchoedd cenedlaethol wedi'u targedu i ddenu gwirfoddolwyr ychwanegol i'r system iechyd a gofal er mwyn lleihau'r pwysau ar ein gweithlu a gwella'r profiad o wasanaethu.

Erbyn mis Medi 2023

- Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid allweddol i sefydlu porth gwirfoddoli cenedlaethol i gyfeirio pobl at gyfleoedd gwirfoddoli lleol.

Erbyn mis Ionawr 2024

- Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid allweddol i ddatblygu portffolio newydd o rolau a chyfleoedd gwirfoddoli i helpu pobl i fynd ati i gefnogi eu hiechyd a'u lles o fewn eu cymunedau lleol eu hunain.
- Gweithio gyda rhwydweithiau gwirfoddoli presennol, partneriaid yn y trydydd sector a grwpiau cymunedol i hysbysebu'r cyfleoedd hyn a pharu pobl yn gyflym â nhw.
- Bydd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn datblygu 'pasbort' gwirfoddoli i helpu i symud gwirfoddolwyr yn gyflym o amgylch Cymru.

Rhoi ar waith yn effeithiol

Mae ein gweithlu wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae cyfradd y cynnydd yn annhebygol o fod yn gynaliadwy yn y farchnad gyflogaeth bresennol. Nod rhaglen moderneiddio cyflogaeth Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yw sicrhau bod recriwtio a gweithio traws-sefydliadol yn sefydliadau GIG Cymru a'r trydydd sector yn cefnogi ac yn cofleidio ein huchelgais o roi gweithwyr a gwirfoddolwyr ar waith mewn modd hyblyg ac ymatebol.

Byddwn yn rhoi ein holl weithlu ar waith mor effeithiol a theg â phosibl, yn lleihau biwrocratiaeth ac yn gwneud penderfyniadau ariannol cadarn ynghylch defnyddio'r gweithlu. Byddwn yn manteisio ar gyfleoedd i ddefnyddio technoleg i optimeiddio amser cynhyrchiol y gweithlu a lleihau bylchau rota byr rybudd drwy systemau effeithlon a thosturiol ar gyfer amserlennu, cynllunio rolau a threfnu gwaith. Bydd hyn, ymhlith mentrau eraill, yn cymell cyflogaeth barhaol a gweithio drwy Fanciau, gan gynnig mynediad haws at shifftiau, taliadau cyflymach a phe cynnau buddion deniadol.

Wrth i fodolau gwasanaethau newydd, cynaliadwy gael eu datblygu, bydd angen cynllunio a darparu rhai gwasanaethau yn rhanbarthol. Mae'r dull hwn yn caniatáu mynediad tecach at wasanaethau i gleifion, er enghraifft o ran diagnosteg, offthalmoleg ac orthopedeg.

Mae disgwyl i sefydliadau'r GIG ddatblygu rhwydwaith o dimau a chanolfannau clinigol rhanbarthol yn hyblyg er mwyn ateb galw lleol. I rai gwasanaethau, efallai mai canolfannau triniaeth neu ganolfannau rhagoriaeth fydd yr opsiwn gorau, a fydd yn cynnig cyfleoedd ar gyfer rolau a hyfforddiant arbenigol.

Rhoi ar waith yn effeithiol – Beth fydd y Cynllun hwn yn ei gyflawni

Erbyn mis Gorffennaf 2023

- Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i gynnal proses feincnodi systemig gyda chenhedloedd eraill er mwyn sicrhau bod pecynnau buddion yn gystadleuol.

Erbyn mis Ionawr 2024

- Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda sefydliadau GIG Cymru i ddatblygu a gweithredu arferion gorau a ffordd dosturiol o reoli amserlenni a threfnu gwaith ar draws GIG Cymru i alluogi pobl i gynllunio eu hamser gwaith o flaen llaw a lleihau'r defnydd munud olaf o shifftiau Asiantaeth.
- Bydd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn datblygu dull seiliedig ar 'basbort' ar gyfer recriwtio a chydabod sgiliau/cymwyseddau blaenorol i gefnogi defnydd hyblyg o bobl ar draws sefydliadau GIG Cymru.
- Bydd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn cyflwyno Banc Cydweithredol Cymru Gyfan wedi'i alluogi gan dechnoleg.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod sefydliadau GIG Cymru yn gweithredu arferion gorau Adnoddau Dynol a systemau effeithiol

er mwyn symleiddio prosesau recriwtio a chynefino gan gynnwys gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Addysgu a Hyfforddi

Dros yr wyth mlynedd diwethaf, trwy'r gwaith y mae AaGIC yn ei wneud i ddatblygu'r Cynllun Comisiynu Addysg a Hyfforddiant blynyddol i Gymru, rydyn ni wedi cynyddu ein buddsoddiad yn addysg a hyfforddiant ein gweithlu fel bod gyda ni nawr y nifer uchaf erioed o bobl yn hyfforddi ar draws grwpiau proffesiynol yn barod i ymuno â'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i gyflawni ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i sefydlu ysgol feddygol yn y Gogledd, ac rydym yn rhagweld y bydd y garfan gyntaf o fyfyrwyr meddygol israddedig yn dechrau ym mis Medi 2024.

Mae angen i ni sicrhau bod y buddsoddiad hwn yn parhau i ddiwallu anghenion gwasanaethau yng Nghymru a'i fod yn ceisio cyflawni'r nod o ddarparu'r gwasanaethau y bydd eu hangen arnom yn y dyfodol drwy drefniadau cynllunio'r gweithlu cadarn.

Mae myfyrwyr gofal iechyd o bob cwr o'r byd yn ymgeisio i astudio yn ein prifysgolion ac i hyfforddi yn ein cymunedau. Mae llawer o'n cyrsiau gofal iechyd ar frig tablau cynghrair ar gyfer addysgu rhagorol a phrofiad myfyrwyr. Mae ein goruchwylwyr addysgol talentog ac ymroddedig yn trosglwyddo eu sgiliau ac yn meithrin gweithlu'r dyfodol, ac mae myfyrwyr yn chwarae rhan werthfawr gan ddarparu gwasanaethau a gofal pan fyddant ar leoliadau ar draws Cymru. Mae rhai yn gwneud gwaith cyflogedig sy'n rhoi profiad gwerthfawr ychwanegol iddyn nhw, ac yn darparu gweithlu ychwanegol i sefydliadau.

Rhaid i ni sicrhau'r budd mwyaf o'r buddsoddiad hwn drwy gyflogi a chadw gweithwyr proffesiynol sydd newydd gymhwyso ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Bydd hyn yn sicrhau gweithlu cynaliadwy i'r dyfodol ac yn sicrhau bod y llwybrau i addysg a hyfforddiant yn ddeniadol ac yn hygyrch i'n poblogaeth a'n cymunedau lleol.

Mae'n hanfodol ein bod ni'n sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu cymell i aros yng Nghymru ac adeiladu ar eu profiad cadarnhaol o fod yn fyfyrwyr gofal iechyd yng Nghymru. Byddwn ni'n creu ffyrdd o gadw'r rheini sydd wedi astudio yng Nghymru a'u croesawu i gyflogaeth. Bydd hyn yn cynnwys ystod o opsiynau sy'n gwneud gweithio ym maes iechyd a gofal yng Nghymru yn ddeniadol, yn atyniadol ac yn ddewis 'da' i bawb. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi AaGIC a chyrrff GIG Cymru i adolygu a gwella'r llwybr i gyflogaeth ar gyfer graddedigion mewn iechyd a gofal yng Nghymru.

Mae hyfforddiant hyblyg a chyfredol yn hanfodol i'n gweithlu ddatblygu eu sgiliau yn barhaus a gallu addasu i ymateb i anghenion newidiol cleifion a'u teuluoedd. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod sefydliadau'n darparu eu hamser a'u harbenigedd er mwyn i'w staff fedru tyfu a datblygu.

Rydym wedi darparu £730,000 i AaGIC i ariannu cynllun peilot arloesol tair blynedd i sefydlu rhwydwaith o Hwyluswyr Addysg Cartrefi Gofal (CHEF) yng Nghymru, er mwyn helpu i recriwtio nyrsys cofrestredig i weithio mewn cartrefi gofal. Trwy roi profiad i fyfyrwyr nyrsio o ystod ehangach o leoliadau ymarfer o ansawdd uchel ym maes gofal cymdeithasol, y gobaith yw y bydd nyrsys sydd newydd gymhwyso yn ystyried y sector fel dewis gyrfa.

Cafodd ei sefydlu fel canlyniad yng Nghynllun Gweithredu Cartrefi Gofal AaGIC er mwyn hwyluso a chefnogi profiadau myfyrwyr sydd ar leoliad mewn cartrefi gofal. Mae CHEF yn darparu cyfleoedd i fyfyrwyr nyrsio gael gwell dealltwriaeth o anghenion personol ac anghenion gofal iechyd preswylwyr sy'n byw mewn cartrefi gofal. Mae hyn yn hanfodol i sicrhau gwerthfawrogiad ehangach o ofal holistig, ffyrdd rhyngbroffesiynol o weithio, a phwysigrwydd sylfaenol dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn fel y nodir yn y strategaeth *Cymru Iachach*.

Addysgu a Hyfforddi – Beth fydd y Cynllun hwn yn ei gyflawni

Erbyn mis Gorffennaf 2023

- Bydd AaGIC yn datblygu cynllun i gynllunio a darparu hyfforddiant ychwanegol i wella sgiliau penodol er mwyn galluogi staff i ymgymryd â rolau lle mae bylchau brys mewn capasiti, a lle bo hynny'n briodol.
- Bydd AaGIC yn sicrhau bod fferyllwyr sylfaen yn cael hyfforddiant amlsector ar draws gofal sylfaenol a gofal eilaidd ac yn gweithredu rhaglen ôl-sylfaen gan alluogi i bob fferylllydd ddod yn bresgripsiynydd annibynnol.
- Bydd AaGIC yn adolygu'r datblygiadau polisi a'r newidiadau bwriedig yn y ffyrdd o weithio i lywio'r cynllun comisiynu addysg a hyfforddiant ar gyfer 24/25.


Erbyn mis Medi 2023

- Bydd Llywodraeth Cymru'n cael gwerthusiad gan AaGIC o effaith a manteision y cynllun peilot CHEF i lywio'r camau nesaf.
- Bydd AaGIC yn comisiynu dadansoddiad i ddeall penderfyniadau gyrfaal graddedigion gofal iechyd yng Nghymru.

Erbyn mis Medi 2024

- Bydd AaGIC wedi datblygu strategaeth glir ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar draws grwpiau proffesiynol a galwedigaethol, gan gynyddu dysgu rhyngbroffesiynol ac anghenion penodol gwahanol rolau fel ymrwymiad yn y Prosiect Lles Staff a ddarperir mewn partneriaeth gymdeithasol.
- Bydd Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda AaGIC i sicrhau lleoedd ychwanegol ar gyfer hyfforddiant therapi deintyddol.

Cadw ein Gweithlu: Ymgysylltu, Cefnogi a Datblygu



Cadw ein gweithlu presennol

Mae llawer o ffactorau'n cyfrannu at arwain ein gweithlu i ddewis parhau i weithio o fewn y system iechyd a gofal. Mae'r ffactorau hyn yn eang ac yn amrywio o delerau ac amodau i gyfleusterau gwaith. Mae'n hanfodol ein bod yn cymryd agwedd gyfannol tuag at gadw ein gweithlu presennol. Drwy'r Prosiect Lles Staff, rydym wedi ymrwymo mewn partneriaeth i gyflawni'r pethau sylfaenol, er enghraifft, sicrhau bod staff yn yfed digon ac yn cael gofal da yn y gwaith. Mae hyn yn adeiladu ar arweinyddiaeth dosturiol a buddsoddiad mewn iechyd a llesiant i sicrhau bod anghenion craidd staff yn cael eu diwallu a bod hyn yn rhan annatod o gynllunio sefydliadol.

Rydym hefyd yn gwybod bod adegau mewn gyrfa lle bydd pobl yn fwy tebygol o adael swyddi iechyd a gofal, a gallwn dargedu'r rhain i leihau cyfraddau gadael, trosiant a swyddi gwag. Mae pobl sydd newydd gymhwyso yn fwy tebygol o aros os ydyn nhw'n cael cefnogaeth i gael dechrau da yn eu gyrfa broffesiynol. Rydym yn gwybod bod cyflwyniad neu diwtoriaeth gynhwysfawr benodol yn rhoi cefnogaeth a'u bod yn ddulliau sydd wedi'u profi o annog pobl i weithio mor effeithiol ag y gallent mewn rôl newydd. Mae'r pethau hyn yn gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu

gwerthfawrogi ac felly byddant yn aros yn y gweithlu o gael sicrwydd cefnogaeth sy'n rhychwantu gyrfa.

Mae cadw staff hefyd yn seiliedig ar gyfleoedd i ddefnyddio sgiliau a datblygu arbenigedd. Felly, mae angen i ni hefyd fod yn greadigol gan ddod o hyd i ffyrdd o gadw ein gweithlu mwy profiadol a allai fod yn ystyried ffyrdd o sicrhau gwell cydbwysedd bywyd a gwaith neu sy'n dymuno dilyn gyrfa sy'n cynnwys cymysgedd o rolau clinigol, addysgol, ymchwil ac arweinyddiaeth ym mhob sector.

Mae angen moderneiddio swyddi a modelau cyflogaeth traddodiadol i dargedu gwahanol gyfnodau bywyd a gyrfa lle bydd pobl efallai'n dymuno cymryd cam yn ôl o'r gwaith yn hytrach na gadael y gweithlu'n gyfan gwbl. Mae angen i ni gefnogi pob aelod staff drwy gynnig opsiynau gwaith hyblyg sy'n cyd-fynd â'u hymrwymadau eraill neu ddigwyddiadau bywyd, er enghraifft staff sydd â chyfrifoldebau gofalu neu'r rheini sy'n ystyried ymddeol. Rhaid i ni ddarparu pecynnau buddion cystadleuol i alluogi pobl i ddatblygu eu sgiliau a'u gyrfaoedd mewn modd ystyrlon a gwerth chweil.

Cadw ein gweithlu presennol – Beth fydd y Cynllun hwn yn ei gyflawni

Erbyn mis Ebrill 2023

- Bydd AaGIC yn cyflwyno cynllun cadw nyrsys fel rhan o'r gwaith sy'n cael ei gwblhau ar gynllun gweithlu nyrsio strategol. Bydd y cynllun hwn yn tynnu ar ganfyddiadau adroddiad y Coleg Nyrsio Brenhinol [Cadw Nyrsys yn y Gweithlu: Beth sy'n bwysig?](#)
- Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda phartneriaid i ddarparu cynllun tiwtoriaeth nyrsio i gefnogi nyrsys sydd newydd gymhwyso a defnyddio'r model i ddatblygu cynlluniau tebyg ar draws grwpiau proffesiynol eraill.

Erbyn mis Gorffennaf 2023

- Bydd Cyflogwyr y GIG yn arwain darn o waith i edrych ar wella llwybrau dychwelyd i ymarfer, gan gynnwys ymddeol a dychwelyd.
- Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda AaGIC i sicrhau bod sefydliadau'n cynnal cyfweiliadau 'aros' er mwyn canfod atebion a allai annog pobl i aros yn y gwaith, a chyfweiliadau 'gadael' os ydyn nhw'n gadael. Gellir defnyddio'r wybodaeth o'r rhain i ddeall y trosiant yn ein gweithlu a pharhau i ddatblygu ein cynnig cyflogaeth i gefnogi cadw staff.
- Bydd AaGIC yn gweithio gyda chyrrff y GIG i ddatblygu cynllun i ymgorffori ein model cynefino ar gyfer iechyd a gofal ar draws Cymru i sicrhau profiad cynefino cadarnhaol i'r holl staff.
- Bydd AaGIC yn adolygu proffesiynau perthynol i iechyd i ddeall y sefyllfa bresennol ac unrhyw anghenion i'r dyfodol i ddarparu ein gwasanaethau, gan arwain at gynllun cadw Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd.

Erbyn mis Medi 2023

- Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu canllawiau, safonau ac adnoddau i hwyluso gallu cyrff GIG Cymru i gynnig opsiynau a phatrymau gweithio hyblyg mwy deniadol i gefnogi staff.

Pecyn buddion cyflawn deniadol

Ers 2015-16, mae cyfanswm y bil cyflog wedi cynyddu 53% ac yn £5,028 biliwn (2021-22) sy'n cynrychioli 58% o gostau gweithredu net GIG Cymru. Heb fwy o gyllid gan Lywodraeth y DU, cyfyngir ar ein rhyddid i gyflawni dyheadau cyflog ein gweithlu yn llawn ond rydym wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth gymdeithasol â'n gweithlu i sicrhau'r pecyn buddion gorau y gallwn ei ddarparu.

Eleni, bydd tua 6% o gyfanswm bil cyflog GIG Cymru yn cael ei wario ar weithwyr asiantaeth, cyfanswm o tua £318 miliwn, ac mae gwaith pwysig yn mynd rhagddo i leihau'r defnydd o asiantaethau a'r gwariant arnynt. Nid yw'n wir y gellid arbed y gwariant cyfan ar staff asiantaeth oherwydd byddai cyfran sylweddol yn mynd tuag at dalu pobl a fyddai'n gweithio heb fod drwy asiantaeth. Ond mae cymell symud o waith asiantaeth i gyflogaeth Banc neu gyflogaeth y GIG yn ein galluogi i arbed elfennau o'r gwariant hwn gan gynnwys taliadau TAW ac elfennau elw.

Er ein bod wedi ymrwymo i recriwtio a llenwi swyddi gwag presennol, bydd angen i ni ddod â chapasiti staffio ychwanegol i mewn ar adegau ac rydym yn awyddus i dynnu ar arbenigedd ein gweithlu ein hunain os ydynt yn barod i weithio oriau ychwanegol, a phan fyddwn yn sicr na fydd hyn yn peryglu eu llesiant. Er mwyn cyflawni'r telerau ac amodau gorau ar gyfer ein gweithlu a'r gwerth gorau am y bunt Gymreig rydym yn awyddus i gymell cyflogaeth o fewn y system iechyd a gofal a darparu oriau ychwanegol drwy gynnig deniadol drwy ein banciau staff mewnol.

Mae'r pecynnau buddion yn cynnwys mwy na thâl yn unig. Byddwn ni hefyd yn ceisio deall y buddion ehangach a fyddai'n helpu i gadw staff, gan gynnwys cyfleoedd datblygu, goruchwyllo a chefnogi, ehangder y rôl, cynllunio swydd, llwyth gwaith a pherthnasoedd gwaith, yn unol ag egwyddorion arweinyddiaeth dosturiol.

Pecyn buddion cyflawn deniadol – Beth fydd y Cynllun hwn yn ei gyflawni

Erbyn mis Gorffennaf 2023

- Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda phartneriaid i safoni cyfraddau tâl ar gyfer oriau ychwanegol mewn gofal eilaidd a gofal sylfaenol er mwyn sicrhau eu bod yn ddeniadol i'r gweithlu ac yn gynaliadwy i'r sefydliadau.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i gyflwyno fframwaith rheoli ar ei newydd wedd i sicrhau llai o wariant ar staff asiantaeth er mwyn sicrhau'r gwerth gorau posib am arian.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i gyflawni'r prosiect lles staff mewn partneriaeth gymdeithasol er mwyn gwella lles staff, amodau gwaith a chyfleoedd dysgu a datblygu.

- Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i gomisiynu ymchwil ar fuddion ehangach sy'n cael eu defnyddio mewn lleoliadau eraill sy'n denu a chadw staff.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a Chyrff GIG Cymru i gyflwyno Banc Cydweithredol Cymru Gyfan.

Partneriaeth gymdeithasol gryf

Mae gennym strwythurau partneriaeth gymdeithasol datblygedig a chadarn, yn ogystal â pherthynas rhwng y llywodraeth, cyflogwyr ac undebau. Rydym wedi ymrwmo i feithrin cysylltiadau drwy bartneriaeth gymdeithasol wrth i ni ddarparu'r atebion gweithlu sydd eu hangen arnom i ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal ar gyfer y dyfodol. Bydd hyn yn ein galluogi i feithrin cysylltiadau gweithredol a chyd-gynllunio'r atebion i'r heriau y byddwn yn eu hwynebu yn ystod y blynyddoedd nesaf, gan dynnu ar amrywiaeth eang o safbwyntiau wrth i ni ddatblygu ffyrdd newydd o weithio fel unigolion ac ar draws timau a sefydliadau, yn ogystal â hwyluso cynnydd o ran cyflawni. Byddwn yn cynnal ac yn cryfhau ein mecanweithiau a'n perthnasoedd partneriaeth gymdeithasol yn lleol ac yn genedlaethol ac yn meithrin cysylltiadau cryfach rhwng ein strwythurau cenedlaethol a lleol i sicrhau bod cytundebau cenedlaethol yn cael eu gweithredu'n gyson ar draws Cymru yn ysbryd partneriaeth a pharch, fel y cytunwyd.

Partneriaeth Gymdeithasol Gryf – Beth fydd y Cynllun hwn yn ei gyflawni

Erbyn mis Gorffennaf 2023

- Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu a chyhoeddi canllawiau cenedlaethol a deunyddiau hyfforddi a datblygu i gefnogi partneriaeth gymdeithasol integredig yn unol â'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol. Mae hyn yn ymdrin â materion fel amser cyfleuster.
- Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda phartneriaid i gyd-gynhyrchu rhaglen waith partneriaeth y cytunwyd arni i gyflawni meysydd allweddol o gynllun gweithredu'r gweithlu yn unol ag egwyddorion craidd y GIG – yn enwedig yn y meysydd sydd o fudd i recriwtio a chadw staff.

Gwerthfawrogi a chynnwys pawb

Fe wnaeth y pandemig dynnu sylw at anghydraddoldebau annerbyniol ar draws Cymru. Rhaid i ni sicrhau bod y system iechyd yn rhywle lle gall pawb gael mynediad at wasanaethau neu ddod i'r gwaith heb ofni unrhyw fath o wahaniaethu neu fwlio ac aflonyddu. Rydym yn disgwyl bod ein sefydliadau yn gweithredu fel cyflogwyr enghreifftiol a bod ein gweithlu wedi datblygu'r cymwyseddau diwylliannol ac ymddygiadau cynhwysol sydd eu hangen i gyflawni ein huchelgeisiau.

Yn ystod y gwaith o ddatblygu [Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol](#) clywsom sut mae staff Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol yn GIG Cymru yn profi hiliaeth gudd ac agored, a bod gweithdrefnau disgyblu yn effeithio'n anghymesur arnyn nhw. Roedd adroddiad y [Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol](#) a gyhoeddwyd eleni yn tynnu sylw at sut y cafodd staff iechyd a gofal cymdeithasol ethnig leiafrifol ar gyflog is eu

trin yn wahanol i'w cydweithwyr gwyn, a'u bod heb ymwybyddiaeth o'u hawliau ac yn ofni adrodd pryderon neu wneud cwynion am amodau gwaith. Mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn amlinellu'r disgwyliad y bydd pawb yn cymryd cyfrifoldeb ac yn ymrwmo i arwain y newid systemig sydd ei angen i gael gwared ar hiliaeth, ac yn yr un modd, bob math o wahaniaethu yn GIG Cymru.

Mae gennym rwydwaith Cydraddoldeb ac Amrywiaeth fywiog ac ymroddedig yn GIG Cymru a byddwn yn eu cefnogi i gyflawni ar bob lefel ar draws ein sefydliadau, gan ymgorffori Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant fel cyfrifoldeb ar bawb, gyda chymorth Hyrwyddwyr Bwrdd awdurdodedig.

Gwerthfawrogi a chynnwys pawb – Beth fydd y Cynllun hwn yn ei gyflawni

Erbyn mis Gorffennaf 2023

- Bydd cyflogwyr y GIG yn gweithio gyda phartneriaid i ddarparu a hyrwyddo fframwaith newydd Siarad yn Ddiogel er mwyn gwneud ein gweithlu'n fwy hyderus o'u hawl a'u gallu i siarad am unrhyw bryderon am driniaeth annheg yn y gweithle.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i weithredu camau gweithredu'r gweithlu yn y cynllun LHDTQ+ terfynol.

Erbyn mis Medi 2023

- Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i weithredu argymhellion a chanfyddiadau'r archwiliad annibynnol o bolisiau a gweithdrefnau gweithlu'r GIG ar draws Cymru gyfan i sicrhau bod egwyddorion gwrth-hiliol yn cael eu cynnwys mewn ymarfer craidd.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i gyflwyno Safon Cydraddoldeb Hil y Gweithlu ar draws iechyd a gofal cymdeithasol i ddarparu sylfaen dystiolaeth i wneud newidiadau strwythurol wedi'u targedu, a'u mesur.

Erbyn mis Ionawr 2024

- Bydd Cyflogwyr y GIG yn gweithio gyda phartneriaid i fonitro pryderon gan staff GIG Cymru am wahaniaethu a bwlio o fewn y gweithlu gan sicrhau y cofnodir nodweddion gwarchoddedig yn gywir.
- Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda phartneriaid i weithredu cynllun i sicrhau cyfleoedd cyflogaeth ehangach yn GIG Cymru sy'n cefnogi nodau [Cymru Gryfach, decach a gwyrddach: cynllun cyflogadwyedd a sqiliau](#) a chymryd rhan allweddol yn ein Heconomi Sylfaenol.

Erbyn mis Medi 2024

- Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i gynnwys y model cymdeithasol o anabledd ym mholisiau gweithlu'r GIG ar draws Cymru gyfan, mewn ymarferion recriwtio ac mewn cyflogaeth.

Y Gymraeg

Yng Nghymru, mae dros 100,000 o staff yn cael eu cyflogi gan y GIG, sef cyflogwr mwyaf Cymru o bell ffordd. Felly, mae gan gyrff y GIG gyfle enfawr i arwain drwy esiampl o ran darparu gwasanaethau Gymraeg rhagweithiol, gan alluogi cyfathrebu a gofal effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ar adeg pan fo cleifion a'u teuluoedd ar eu mwyaf agored i niwed. Mae cefnogi a datblygu sgiliau iaith Gymraeg gweithlu'r presennol a'r dyfodol yn thema allweddol yn y fframwaith [Mwy Na Geiriau](#) ar ei newydd wedd, sy'n gosod cynllun uchelgeisiol pum mlynedd i ymgorffori newid mewn diwylliant i brif ffrydio'r Gymraeg a rhoi cyfle i'r holl staff ddatblygu eu sgiliau yn y Gymraeg er budd cleifion a'u teuluoedd. Bydd hyn hefyd yn cyfrannu at uchelgais Llywodraeth Cymru i gynyddu defnydd o'r Gymraeg a nifer y siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Erbyn mis Medi 2023

- Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chyrff GIG Cymru i gytuno ar fframwaith cenedlaethol ar gyfer casglu a choladu data am sgiliau iaith yr holl staff sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chyrff y GIG i sicrhau cyflawni'r camau gweithredu sydd wedi'u nodi yn y strategaeth Mwy na Geiriau.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi AaGIC i weithio gyda chyrff GIG Cymru i ganfod bylchau yn sgiliau'r gweithlu mewn meysydd allweddol a datblygu cynlluniau i fynd i'r afael â nhw, gan ganolbwyntio ar y rheini sydd â sgiliau yn y Gymraeg ond â diffyg o hyder i'w defnyddio.
- Bydd AaGIC yn llunio cwrs 'ymwybyddiaeth' o'r Gymraeg a fydd yn esbonio pwysigrwydd y Gymraeg o ran darparu gwasanaethau, ac fel un o anghenion y claf, a bydd yn gweithio gyda chyrff GIG Cymru i sicrhau ei fod yn orfodol i gwblhau'r cwrs hwn.

Buddsoddi mewn Iechyd a Llesiant

Mae llesiant y gweithlu yn edefyn allweddol yn y strategaeth '[Cymru Iachach: Ein Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#)'. Sicrhau gweithlu iach a chysylltiedig sy'n gweithio i'w llawn botensial yw'r unig ffordd y gallwn gyflawni ein cynlluniau uchelgeisiol ar gyfer adfer y GIG a sicrhau'r gofal gorau i bobl Cymru. Bydd cymryd agwedd ragweithiol ac ataliol i alluogi pobl i gynnal eu hiechyd a'u lles eu hunain yn cyfrannu at gadw ein gweithlu presennol. Mae hyn yn hanfodol yn y marchnadoedd llafur rhyngwladol a lleol cystadleuol iawn.

Yn eu [hadroddiad yn 2021, canmolodd Archwilio Cymru](#) y ffordd y gwnaeth cyrff y GIG wella eu cynnig llesiant i staff yn ystod y pandemig. Nodwyd y manteision cadarnhaol i'r gweithlu a hefyd y dystiolaeth gref iawn fod gweithlu sy'n cael eu

cynnwys yn dda yn arwain at fuddion cadarnhaol mesuradwy ar gyfer ansawdd y gwasanaeth a ddarperir a'r canlyniadau ar gyfer y boblogaeth. Roedd yr adroddiad hefyd yn cydnabod cost sefydliadol llesiant staff gwael. Mae'r Arsyllfa Polisi Cyhoeddus Rhyngwladol yn amcangyfrif y gallai'r gost ariannol i'r GIG yn Lloegr o ganlyniad i lesiant gwael fod yn £12.1 biliwn y flwyddyn, ac y gellid arbed tua £1 biliwn drwy fynd i'r afael â'r mater hwn yn llwyddiannus. Mae'r modelu hwn yn dangos y manteision sylweddol y gellid eu cyflawni yn GIG Cymru drwy gymryd camau cadarnhaol i ddiogelu a hyrwyddo llesiant staff.

Gwnaethom fuddsoddi'n sylweddol iawn yn iechyd a llesiant ein gweithlu yn ystod y pandemig, ac rydym yn cydnabod yr effaith andwyol sylweddol y mae'r pandemig wedi'i chael ar ein gweithlu. Wrth i'r effeithiau mwy hirdymor ddod i'r amlwg, rydym yn parhau i ymrwymo i gefnogi iechyd a llesiant ac i barhau i ymateb a gweithio gyda phartneriaid cymdeithasol i roi pecynnau ar waith i ategu'r hyn sy'n cael ei gynnig yn lleol gan sefydliadau. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod staff yn gallu cael cymorth rhagweithiol o ansawdd uchel pan fyddant ei angen fwyaf. Gwyddom mai'r peth gorau ar gyfer darparu gwasanaethau, i unigolion a'u cydweithwyr, yw cymryd agwedd ragweithiol i osgoi absenoldebau o'r gwaith lle bo modd a galluogi gweithwyr i ddychwelyd yn gyflym i'r gwaith os ydynt wedi bod yn absennol.

Buddsoddi mewn Iechyd a Llesiant – Beth fydd y Cynllun hwn yn ei gyflawni

Erbyn mis Mehefin 2023

- Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu cynigion wedi'u costio i ddarparu model darparu iechyd galwedigaethol teg a chynaliadwy sydd wedi'i ategu gan weithlu iechyd galwedigaethol sy'n cael cefnogaeth dda.
- Bydd Cyflogwyr y GIG yn gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol i weithredu polisiâu rhagweithiol a fydd yn galluogi unigolion a'u rheolwyr llinell i ddefnyddio dull hyblyg ac ymatebol o reoli presenoldeb yn y gwaith.
- Bydd AaGIC yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff y GIG adolygu canlyniadau Arolwg Staff GIG Cymru ac asesu sut y gall systemau, polisiâu a gweithdrefnau gyfrannu'n gadarnhaol at iechyd a llesiant y gweithlu.

Erbyn mis Medi 2023

- Bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Arweiniad i Sgyrsiau Lles y Gweithlu yn seiliedig ar ddata o'r cynllun peilot er mwyn deall a mynd i'r afael ag anghenion y gweithlu yn rhagweithiol.

Arweinyddiaeth, dulliau tosturiol a chyfunol

Mae ymchwil helaeth yn dangos bod y gweithlu mewn sefydliadau iechyd a gofal sy'n ymarfer ac yn ymgorffori arweinyddiaeth dosturiol ar y cyd yn ymrwymo yn well, a bod hynny yn ei dro yn arwain at well canlyniadau iechyd i bobl. Bydd arweinyddiaeth dosturiol yn hollbwysig ar bob lefel ac ar draws pob grŵp proffesiynol os ydym am ail-ganolbwyntio, datblygu ac ailgynllunio gwasanaethau ein GIG yn effeithiol ar gyfer y dyfodol, cadw ein gweithlu a'u cynnwys wrth ddatblygu atebion newydd, rheoli newid a darparu profiadau effeithiol i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau a gwella ansawdd.

Yn unol â Strategaeth y Gweithlu, mae AaGIC a Gofal Cymdeithasol Cymru wedi datblygu cyfres o Egwyddorion Arweinyddiaeth Tosturiol a chwmpawd ymddygiad arweinyddiaeth tosturiol er mwyn cynnig map trywydd ar gyfer creu arweinwyr tosturiol a diwylliannau tosturiol ym maes iechyd a gofal. Mae'r rhain yn sail i'r holl raglenni datblygu arweinyddiaeth cenedlaethol sydd wedi'u datblygu gan AaGIC dros y 3 blynedd diwethaf, gyda chymorth adnoddau eraill, modiwlau lefel meistr, gweithdai, dosbarthiadau meistr a phodlediadau sydd i gyd ar gael trwy'r [Porth Arweinyddiaeth Gwella](#).

Mae'r Porth Arweinyddiaeth Gwella yn rhoi mynediad agored i gynigion ac adnoddau arweinyddiaeth dosturiol gredadwy, ac mae'r porth wedi cael hanner miliwn o ymweliadau hyd yma, gyda thros 3,000 o ddefnyddwyr wedi cofrestru. Mae'n cynnal dwsinau o rwydweithiau arweinyddiaeth a chymunedau ymarfer bywiog sy'n helpu i greu mudiad cymdeithasol mewn arweinyddiaeth dosturiol.

Bydd sefydliadau unigol hefyd yn adeiladu ar y deunydd hwn i roi cyd-destun i'r cynnig cenedlaethol i sicrhau datblygiad yn eu sefydliadau eu hunain a datblygu dulliau pwrpasol lle bo angen. Mae AaGIC wedi datblygu nifer o ddulliau o adnabod talent ymhlith y rhai sydd â dyhead i ymgymryd â rolau uwch ar draws y GIG ac sydd â'r sgiliau a'r profiad i symud i'r rolau hynny yn y dyfodol. Mae cyfleoedd fel digwyddiadau 'Talentbury' wedi cefnogi'r rheini a nodwyd ar gyfer cyfleoedd datblygu ar draws Cymru drwy gynnig adnoddau datblygu, cefnogaeth bersonol a rhwydwaith i gyn-fyfyrrwyr.

Ers 2011, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi yn Rhaglen Arweinyddiaeth Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol (RCGP), gan roi cyfle i unigolion sydd â dyhead i fod yn feddygon teulu, ac sydd wedi ymrwymo i newid, i ddatblygu eu sgiliau arwain clinigol. Wedi'i gohirio oherwydd y pandemig, bydd y Rhaglen yn cael ei hadfer yn 2023 i ddatblygu carfan newydd o arweinwyr gofal sylfaenol.

Bydd yn hanfodol arfogi ein holl reolwyr llinell â'r sgiliau a'r galluoedd, ynghyd ag ystod o ddulliau a thechnegau i gefnogi datblygu arweinyddiaeth ar bob lefel. Bydd angen i ni sicrhau bod ein holl ddulliau rheoli llinell yn cefnogi llesiant ein gweithlu ac yn ymgorffori'r arfer o arweinyddiaeth dosturiol mewn ffordd bendant sy'n gwneud gwahaniaeth i'n gweithlu o ddydd i ddydd.

Byddwn ni hefyd yn datblygu ac yn cefnogi rheolwyr llinell a'r gweithlu ehangach ar draws y proffesiynau i feithrin sgiliau a galluoedd a chymryd agwedd ragweithiol ac

ataliol tuag at faterion sy'n codi yn y gweithle. Mae hyn yn rhan allweddol o sicrhau bod ein gweithleoedd yn deg, ac mae hefyd yn sail i'n Strategaeth Ansawdd.

Roedd cyflwyno *Perthnasau Gwaith Iachach* fel datblygiad diwylliannol cyffredinol i sicrhau ymddygiadau, gwaith a gweithleoedd mwy tosturiol, cyfunol, iachach a thecach, yn arwydd o newid sylweddol yn ein dull o ymdrin â pherthnasoedd yn y gweithle o fewn y GIG i gydnabod, os nad yw perthnasoedd yn cael eu gwerthfawrogi, y bydd hynny yn niweidiol i ofal. Byddwn ni'n monitro ac yn gwerthuso'r ymrwymiad hwn i barhau i ymgorffori diwylliant o barch, tegwch a dealltwriaeth yn y GIG yng Nghymru.

Arweinyddiaeth – tosturiol a chyfunol – beth fydd y Cynllun hwn yn ei gyflawni

Erbyn mis Gorffennaf 2023

- Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod arweinyddiaeth dosturiol yn cael ei hymgorffori mewn polisiau ac ymarfer.

Erbyn mis Medi 2023

- Bydd AaGIC yn defnyddio data o ganlyniadau Arolwg Staff GIG Cymru fel sail i gamau gweithredu ar gyfer trawsnewid diwylliant y gweithlu.
- Bydd cyrff y GIG yn cyflawni'r blaenoriaethau a nodwyd gan y grŵp partneriaeth gymdeithasol Perthnasau Gwaith Iachach.

Ymgorffori Sgiliau a Thechnegau Gwella, Newid a Rheoli Ansawdd

Gan fod angen i ni drawsnewid ein timau gweithlu a darpariaeth gwasanaethau, mae angen i ni sicrhau bod gan bobl o bob cefndir, ac ar bob lefel yn ein sefydliadau y dulliau a'r technegau arfer gorau i'w galluogi i fwrw ymlaen â gwelliant yn eu tîm, yn eu sefydliad neu yn genedlaethol. Gan ddefnyddio [Fframwaith Ansawdd a Diogelwch y GIG](#) a'r arbenigedd yr ydym wedi'i ddatblygu gyda Gwelliant Cymru, mae'n rhaid i ni bwysleisio bod ansawdd yn gyfrifoldeb ar bawb a bod angen dull amlddisgyblaethol ar lefel leol a chenedlaethol. Rhaid ymwreiddio'r cysyniad hwn yn niwylliant ein gweithlu, gan ddeall a gwella ansawdd y gofal a ddarparwn.

Cynllunio ar gyfer y dyfodol



Cyflenwad a Siâp y Gweithlu

Mae angen inni sicrhau dealltwriaeth glir, ac mor agos â phosib at amser real, o'n gweithlu a llif deinamig pobl i mewn ac allan o sefydliadau, yn lleol ac yn genedlaethol. Yna mae'n rhaid i ni allu troi'r data hwnnw'n ddeallusrwydd effeithiol i lywio'r broses o wneud penderfyniadau'n lleol yng nghyrrff y GIG ac yn genedlaethol.

Ar hyn o bryd, mae bil cyflogau'r gweithlu oddeutu 58% o gyfanswm cyllideb y GIG yng Nghymru ac felly bydd gwell data gweithlu hefyd yn cefnogi defnydd gwell o adnoddau ar draws y system gan adeiladu ar ddadansoddiad seiliedig ar werth o'r llwybrau clinigol mwyaf effeithiol a'r modelau gweithlu gorau sy'n eu cefnogi.

Mae data'r gweithlu yn hanfodol bwysig nid yn unig at ddibenion cynllunio ond hefyd i lywio comisiynu addysg ar gyfer y system gyfan, fel ein bod yn addysgu digon o staff.

Gwella data'r gweithlu

Mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau dealltwriaeth gadarn o'n data fel sail i gynllunio a darparu gwasanaethau gweithredol yn ogystal â rheoli argyfyngau a risg ar adegau pan fydd y system o dan bwysau. Mae'n ofynnol hefyd sicrhau dealltwriaeth glir o ddeinameg ein gweithlu fel sail i gynllunio hirdymor effeithiol ar gyfer anghenion y gweithlu yn y dyfodol, wedi'i gyfuno ag effaith iechyd y boblogaeth a demograffeg ar y galw ac ar allu gwasanaethau.

Meithrin capasiti a gallu wrth gynllunio'r gweithlu gan ddefnyddio methodoleg safonol

Mae AaGIC wedi cynhyrchu [pecyn cymorth cynllunio'r gweithlu](#) i gyrrff y GIG ei fabwysiadu wrth iddynt gynllunio eu gweithlu ac mae rhwydwaith gweithgar o gynllunwyr gweithlu'r GIG sydd wedi bod yn rhannu dulliau gweithredu a methodolegau er mwyn datblygu eu dulliau cynllunio ymhellach. Byddwn ni'n datblygu'r pecyn cymorth hwn a'r hyn a ddysgwyd o'i weithredu i ddatblygu dulliau sy'n seiliedig ar yr hyn yr ydym yn ei wybod am effaith iechyd a demograffeg y boblogaeth i gynllunio ein hanghenion gweithlu yn y dyfodol fel sail i gynlluniau ehangach y gweithlu.

Cyflenwad a Siâp y Gweithlu, Data a Chynllunio – Beth fydd y Cynllun yn ei gyflawni

Erbyn mis Mehefin 2023

- Bydd Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi data swyddi gwag GIG Cymru ar gyfer y gweithlu sydd wedi'i gyflogi'n uniongyrchol.

Erbyn mis Medi 2023

- Gyda chyrrff y GIG, bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r dull o gasglu data'r gweithlu a'i gadernid, a sicrhau bod y data hwn yn cynnig sail gywir a chyson i ddeall ein gweithlu a'n proses o wneud penderfyniadau ar draws Cymru.
- Yn seiliedig ar yr adolygiad data, bydd Llywodraeth Cymru yn sefydlu amserlen ar gyfer cyhoeddi dangosfwrdd gweithlu cenedlaethol i ddod â thryloywder i'r cynnydd a'r blaenoriaethau ar draws y gweithlu yng Nghymru.
- Bydd AaGIC yn gweithio gyda phartneriaid i wella ansawdd, argaeledd a mynediad at ddata'r gweithlu, a bydd yn datblygu methodoleg a model data gweithlu cenedlaethol i asesu faint o weithlu sydd ar gael, a'r galw am weithlu.
- Bydd AaGIC yn adolygu ac yn gwerthuso'r cynnydd ar y blaenoriaethau presennol o ran cynllunio'r gweithlu fel y nodwyd yn y tabl ar dudalen 6.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i osod blaenoriaethau ar gyfer cynlluniau gweithlu penodol i broffesiwn yn y dyfodol yn ychwanegol at y rhai sydd wedi'u rhestru yn y tabl ar dudalen 6.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda AaGIC a GCC i ddatblygu dull gweithredu ar gyfer cynllun gweithlu hirdymor ar gyfer iechyd a gofal.

Modelau gweithlu di-dor a Gofal Person Cyfan

Mae'r strategaeth 'Cymru Iachach' yn nodi'n glir ein bod am ddarparu gofal yn y cartref neu mor agos at y cartref â phosibl a darparu'r gofal hwn drwy'r egwyddor 'y tîm o amgylch y claf'. I wneud hyn, mae angen i ni symud gwasanaethau o ofal eilaidd i leoliadau mwy lleol a gweithio ar draws ffiniau proffesiynol a sefydliadol traddodiadol i ddarparu gofal di-dor o ansawdd uchel, gan wneud y gorau o sgiliau pawb a darparu ein gwasanaethau mewn gwahanol ffyrdd gan ddefnyddio rolau a dulliau newydd. Er enghraifft, rydym wedi ymrwymo i ddatblygu modelau paratoi ac

adsefydlu yn y gymuned, mynediad uniongyrchol at therapi a thriniaeth a gweithredu modelau a gytunwyd yn genedlaethol ar gyfer gofal clyw, gan gynnwys mynediad uniongyrchol at wasanaethau awdioleg.

Ar hyn o bryd mae'r GIG ac awdurdodau lleol yn cydweithio ar raglen Adeiladu Galluedd Gofal Cymunedol sy'n cynyddu nifer y gwelyau 'cam i lawr i wella' neu gyfwerth sydd ar gael mewn gofal cymunedol fel rhan o lwybr y claf. Nod y mesurau hyn yw bodloni anghenion pobl yn y gymuned a chynorthwyo gyda llif cleifion drwy ysbytai. Bydd hyn yn cynyddu'r angen am staff adsefydlu ac ail-alluogi medrus ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r Fframwaith Proffesiynau Perthynol i Iechyd yn amlinellu nodau clir ar gyfer trawsnewid gwasanaethau, gan gynnwys symud Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd i weithio mewn gwasanaethau sylfaenol a chymunedol sy'n hygyrch yn uniongyrchol.

Mae hyn hefyd yn rhoi cyfle i ni archwilio datblygiad rolau a phroffesiynau newydd, er enghraifft, Cymdeithion Meddygol, Cymdeithion Anaestetig a Meddygon Arbenigol o'r contract Meddygon Arbenigol ac Arbenigedd (SAS) diwygiedig. Rhaid i hyn fod yn broses ystyriol ac wedi'i chydlynu gydag asesiad effaith lawn ac addysg, seilwaith goruchwyllo a chanllawiau priodol ar waith i gyflogwyr.

Mae gan yr Uned Cyflenwi Cyllid ystod o ddadansoddiadau manwl sy'n seiliedig ar werth o'r amrywiad mewn darpariaeth ar draws gwahanol weithdrefnau a llwybrau clinigol. Bydd dadansoddi a meincnodi modelau'r gweithlu sy'n sail i'r prosesau a'r llwybrau mwyaf effeithiol ynghyd â dealltwriaeth o derfynau trwyddedau proffesiynol yn rhoi gwybodaeth gyfoethog i ni ynghylch sut y gallem ailgynllunio ac optimeiddio modelau'r gweithlu gan ddefnyddio rolau newydd a sicrhau bod gweithwyr yn ymarfer hyd eithaf eu gallu, a sut y gall rhannu a mabwysiadu'r modelau profedig hyn arwain at gyflawni yn fwy cyson ac effeithiol ar draws Cymru.

Rydym yn gwybod bod gennym lefelau uchel o salwch hirdymor, a phoblogaeth sy'n heneiddio a bod gwasanaethau'n adrodd lefelau uwch o anghenion cymhleth. Mae data o 2019 yn awgrymu bod mwy na 16% o bobl yn cymryd pum meddyginiaeth neu fwy a bod mwy na 7.5% yn cymryd wyth neu fwy. Erbyn eu bod yn 80 oed, mae mwy na thraean o bobl ar wyth meddyginiaeth neu fwy.¹

Bydd angen i'n gwasanaethau a'n gweithlu ymateb mewn ffyrdd gwahanol i gefnogi pobl gyda gofynion mor gymhleth. Mae ein cyfeiriad polisi yn glir ac yn darparu'r atebion posib i alluogi i'r maes iechyd a gofal yng Nghymru gwrdd â'r newidiadau hyn. Bydd angen i'n gweithlu weithio mewn modd gwahanol ac mewn lleoliadau gwahanol, gan sicrhau mynediad mwy uniongyrchol i'r gweithwyr proffesiynol, gwasanaethau, neu driniaethau cywir os ydym am ddarparu'r canlyniadau ansawdd gofal sydd eu hangen. Bydd y camau i gwrdd â'r angen newydd hwn yn cynnwys gwelliannau wrth weithio'n ddi-dor, mwy o rolau a gwasanaethau ar y cyd, gyda staff o sefydliadau partner yn gweithio ochr yn ochr â'i gilydd. Bydd angen i ni sicrhau bod llwybrau gofal yn canolbwyntio ar ddiwallu anghenion yr unigolyn, yn hytrach nag ymatebion arbenigol ar wahân na fydd efallai'n datrys gwir anghenion y defnyddiwr gwasanaeth. Byddai adolygiad trylwyr o gymysgedd sgiliau, a rolau yn helpu i

sicrhau bod y gweithlu cywir ar gael i ddiwallu anghenion cymhleth y garfan gynyddol hon o bobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal.

Mae'r Fframwaith Proffesiynau Perthynol i Iechyd yn nodi'r angen i drawsnewid y gweithlu proffesiynol perthynol i iechyd i ddarparu ymyrraeth gynnar, sy'n fwy ataliol. Mae hefyd yn nodi'n glir yr angen i gynyddu gwasanaethau adfer ac ail-alluogi yn y gymuned i atal pobl rhag bod angen gofal hirdymor, gan gynnwys mynd i'r ysbyty, a sicrhau bod pobl yn cael cymaint o adferiad â phosibl a'u galluogi i fyw mor annibynnol â phosibl cyhyd ag sy'n bosibl (Cymru Iachach 2018).

Modelau gweithlu di-dor a Gofal Person Cyfan – Beth fydd y Cynllun hwn yn ei gyflawni

Erbyn mis Ebrill 2023

- Bydd Llywodraeth Cymru yn dechrau gwaith cwmpasu i lywio'r gwaith o ddatblygu polisiâu ar rolau Band 4 i gefnogi'r gweithlu nyrsio, gan gynnwys safbwynt polisi ar rolau cofrestryddion Band 4.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru i sefydlu grŵp llywio Cymru gyfan i oruchwylio'r rhaglen drawsnewid sydd ei hangen i ddisodli'r Cofnod Staff Electronig presennol ar draws cyrff GIG Cymru.

Erbyn mis Medi 2023

- Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu modelau gweithlu clir er mwyn sicrhau bod rolau proffesiynol newydd yn cael eu defnyddio'n llawn i sicrhau'r capasiti mwyaf posibl.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda AaGIC i ddatblygu rolau a modelau ar gyfer defnyddio staff cymorth i alluogi staff clinigol i ganolbwyntio ar eu dyletswyddau proffesiynol craidd.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gellir defnyddio'r Fframweithiau Clinigol Cenedlaethol i fabwysiadu ac ymwreiddio'r modelau gweithlu gorau a brofwyd sy'n sail i'r llwybrau clinigol mwyaf effeithiol.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn comisiynu atebion technoleg er mwyn modelu galw a chapasiti seiliedig ar wybodaeth Unwaith i Gymru er mwyn galluogi'r wybodaeth hon i fod yn sail i gynllunio gwaith mewn timau amlddisgyblaethol a modelu'r gweithlu.
- Bydd AaGIC yn asesu effaith modelau tîm aml-broffesiynol newydd ar weithredu'r Ddeddf Staffio Nyrsio.
- Bydd AaGIC yn defnyddio'r canllawiau gweithlu perthynol i iechyd i drefnu sut mae Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd yn gweithio mewn gwasanaethau integredig, gan sicrhau'r effaith, lles, llywodraethu proffesiynol a chymysgedd sgiliau gorau posibl.

Gweithlu â sgiliau ac offer hwyluso digidol

Mae atebion digidol, data, a thechnoleg yn hanfodol i alluogi darparu gofal gwell a mwy tosturiol i bobl Cymru. Trwy gydol y pandemig, cafodd atebion digidol eu cyflwyno'n gyflym i gynnal gwasanaethau a darparu gwasanaethau newydd, ac yn ôl [Adroddiad Astudiaeth Arloesi a Thrawsnewid Covid-19 GIG Cymru 2021](#), mae'r gweithlu wedi croesawu'r newidiadau hyn. Mae'n hollbwysig ein bod yn ceisio

sicrhau'r buddion mwyaf posibl o fuddsoddiad digidol ac yn blaenoriaethu'r datrysiadau digidol a fydd yn cael yr effaith fwyaf wrth ddarparu mynediad diogel i ddata a gwybodaeth safonol, o ansawdd i'n gweithwyr gofal proffesiynol ar yr adeg gywir i gefnogi eu penderfyniadau.

Roedd y gweithlu yn thema allweddol a nodwyd a cheir llawer o enghreifftiau o arfer da:

- Gwnaed gwaith mewn partneriaeth i ddarparu Ap COVID-19 y GIG ar gyfer Cymru a Lloegr a lluniwyd Cofnod Pandemig Cymru a oedd yn cynnwys data amser real i lywio penderfyniadau a pholisïau clinigol.
- Mae [Mynychu Unrhyw Le](#) wedi'i gynnwys fel astudiaeth achos yn yr adroddiad hwn. Roedd hyn yn cynnwys darparu ymgynghoriadau digidol/fideo ac ers hyn mae wedi cael ei gyflwyno ar draws y system a'i werthuso'n drwyadl. Mae'r buddion ac arbedion yn dangos gostyngiad mewn amser cyflenwi a derbyn gofal, a gostyngiad mewn amser teithio i gleifion a'r gweithlu. Trwy waith y Ganolfan Gofal trwy Gymorth Technoleg yn lechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW), bydd mentrau Teleofal, Teleiechyd ac Ymgynghoriadau Fideo ar draws Cymru yn cael eu nodi ar gyfer eu huwchraddio'n genedlaethol. Bydd y ganolfan ganolog ar gyfer pob darparwr gwasanaeth yn helpu i feithrin gwaith ar y cyd, gan rannu arferion da a chydweithio ym mhob gweithgaredd sy'n gysylltiedig â theleofal ar gyfer Cymru gyfan.

Mae defnyddio pŵer digidol a data yn gofyn mwy na gweithredu atebion newydd megis telefeddygaeth neu feddalwedd diagnostig sy'n seiliedig ar Ddeallusrwydd Artiffisial (AI) yn unig. Rhaid i'n staff hefyd fedru cael y gorau allan o'r gwasanaethau digidol hynny. Byddwn ni'n sicrhau ein bod ni'n cefnogi ein gweithlu gyda llythrennedd digidol ac yn gwneud gwasanaethau digidol yn haws i'w defnyddio, wedi'u llywio gan ddyluniad defnyddwyr. Yn ogystal â darparu hyfforddiant a chymorth, byddwn yn defnyddio Canolfannau Rhagoriaeth i sicrhau mwy o allu, i dyfu ein sylfaen sgiliau, a'n harbenigedd, gan ddilyn esiampl Canolfan Ragoriaeth Microsoft 365 GIG Cymru.

Mae AaGIC yn cwblhau eu fframwaith galluoedd digidol ac yn sefydlu'r "Rhaglen meithrin gweithlu â sgiliau digidol" i gynyddu'r gallu digidol yn ein gweithlu, gan eu galluogi i weithio a dysgu gan ddefnyddio technoleg briodol a ffyrdd o ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal yn ddigidol.

Mae'r nifer sy'n manteisio ar dechnolegau Deallusrwydd Artiffisial (AI) yn cynyddu a bydd datblygu a chynnal sgiliau arbenigol sy'n gysylltiedig ag AI yn gofyn am addysg, achrediad, a llwybrau gyrfa priodol. Mae gwaith eisoes wedi dechrau yng Nghymru i fapio gofynion Proffesiynau Digidol, Data a Thechnoleg (DDAT), adolygu prentisiaethau gwybodeg iechyd trwy gymorth AaGIC a chryfder cynyddol mewn arweinyddiaeth ddigidol drwy'r Grŵp Diddordeb Arbennig Deallusrwydd Artiffisial ar gyfer lechyd, i gydlynu gwaith deallusrwydd artiffisial a dysgu peirianyddol ar draws gofal iechyd yng Nghymru, gan rannu dysg a phrofiadau. Mae defnyddio pŵer deallusrwydd artiffisial yn effeithiol yn gofyn am ystod o sgiliau, a byddwn ni'n datblygu teuluoedd swyddi proffesiynol, llwybrau gyrfa a fframweithiau cymhwysedd

ac yn cynnwys elfennau data a digidol mewn rolau arwain er mwyn manteisio ar y cyfleoedd y mae deallusrwydd artifisial yn eu cynnig.

Mae gennym brofiad o nodi arfer da mewn datrysiadau gweithio arloesol a digidol yng nghyrrff GIG Cymru a'u cyflwyno ar sail 'Unwaith i Gymru'. Er enghraifft:

- Mae **Cofnod Gofal Nyrsio Cymru (WNCR)** wedi dangos gwell effeithlonrwydd, gwerth, a phrydlondeb gofal yn ogystal â gwelliannau i ddiogelwch, profiad a chanlyniadau cleifion. Mae'n caniatáu ar gyfer cofnodi, storio a chael gafael ar wybodaeth cleifion yn electronig gan arbed amser i nyrsys a gwella gwaith tîm.
- Mae **cais electronig am brawf** radioleg, sydd eisoes yn weithredol yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, yn lleihau'r amser aros am ddelweddu diagnosteg, yn dileu'r risg o golli ceisiadau papur ac yn gwella dealltwriaeth o reoli'r galw. Mae'r system yn barod i'w chyflwyno ar draws Cymru a bydd yn galluogi ceisiadau ar draws ffiniau byrddau iechyd lleol.
- Cynhaliodd **Arloesedd Anadlol Cymru** glinigau rhithwir COPD 10 wythnos gyda chleifion yn Nhregaron, Caerfyrddin a Llanelli ar yr un pryd. Roedd hyn yn arbed amser i'r clinigwyr a nyrsys, a hefyd yn arbed 6500 milltir o deithio i gleifion. Ni fyddai llawer ohonynt wedi teithio a chael y driniaeth.
- **Cofnod Mamolaeth Digidol** – bydd un cofnod ar gyfer Cymru gyfan yn caniatáu i'r gwahanol weithwyr meddygol proffesiynol cysylltiedig rannu gwybodaeth hanfodol yn gyflymach, a lleihau biwrocratiaeth a dyblygu, gan ryddhau mwy o amser i fydwragedd ganolbwyntio ar bobl a galluogi i gleifion gael mwy o reolaeth dros eu gwybodaeth.
- Bydd **Gwasanaeth Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru** yn system unigol a bydd yn rhannu cofnodion electronig ar draws Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Cymru er mwyn integreiddio gwasanaethau lechyd a Gofal Cymdeithasol a rhyddhau amser i'r gweithlu drwy leihau'r baich gweinyddol.
- Mae **cofnod clinigol cleifion electronig WAST** yn fuddsoddiad o £2.5 miliwn a gyflwynwyd i holl ambiwlansys Cymru er mwyn rhoi ffordd fwy effeithlon i'r gweithlu gofnodi manylion clinigol cleifion, gan wella'r gofal y gallant ei ddarparu a lleihau amseroedd trosglwyddo. Bydd y gwelliannau i'r rhaglen hon yn cael eu hymestyn i ymatebwyr cyntaf a grwpiau eraill sy'n ymwneud â rhoi gofal brys i gleifion.

Gweithlu â sgiliau ac offer hwyluso digidol – beth fydd y Cynllun hwn yn ei gyflawni

Erbyn mis Gorffennaf 2023

- Bydd Llywodraeth Cymru'n datblygu dull 'Meddwl yn ddigidol' o ddarparu gwasanaethau a'u hailgynllunio i ddefnyddio mewnbwn clinigwyr yn y modd mwyaf effeithiol a gwella gofal wrth weithredu ar sail gwerth.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r gwaith o weithredu Cofnod Gofal Nyrsio Cymru ymhellach, a gweithio i'w ehangu ar gyfer mamolaeth a phlant.

- Gyda phartneriaid, bydd Llywodraeth Cymru yn nodi atebion digidol sy'n flaenoriaeth i leihau baich ar lwyth gwaith gan gynnwys drwy'r rhaglen adnoddau data cenedlaethol
- Gyda phartneriaid, bydd Llywodraeth Cymru yn nodi proses a fydd yn sicrhau gweithredu dulliau digidol effeithiol ac arloesol 'Unwaith i Gymru' yn systematig, gan leihau pwysau ar y gweithlu.